Inspection of Youth Offending
Archwilio Rhaglen Troseddwyr Ifanc

Criminal Justice Joint Inspection
Arolygiad ar y Cyd Cyfiawnder Troseddol

# Cyd-Arolygiad o Waith Atal Troseddu gan Bobl Ifanc

**Cyd-Arolygiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Arolygiaeth Prawf EM, y Comisiwn Ansawdd Gofal ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**

ISBN: 978-1-84099-390-5

2010

**Cydnabyddiaeth**

Rydym yn ddiolchgar i’r Timau Troseddwyr Ifanc, y Gwasanaethau Plant a’r Heddlu yn Derby, Stoke on Trent, Bryste, Enfield, Casnewydd, Hartlepool a Gogledd Sir Efrog, ac i’r partneriaid eraill a fu'n gweithio gyda nhw, am eu cymorth gyda'r arolygiad hwn. Oherwydd eu parodrwydd i gyfrannu at y broses arolygu, roeddem wedi gallu casglu’r deunydd yr oedd ei angen arnom.

| | |
|---|---|
| *Prif Arolygydd* | *Gary Boughen (Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM)* |
| *Arolygwyr Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM* | *Paul Eveleigh, Stephen Glass* |
| *Arolygwyr Arolygiaeth Prawf EM* | *Andy Smith* |
| *Arolygwyr y Comisiwn Ansawdd Gofal* | *Michelle Fordham, Fergus Currie* |
| *Arolygwyr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru* | *Mary Browning* |
| *Staff Cymorth* | *Pete Clegg; Oliver Kenton* |
| *Tîm Cyhoeddiadau* | *Alex Pentecost; Christopher Reeves* |
| *Golygydd* | *Julie Fox* |

## Rhagair

Mae’r arolygiad thematig hwn yn un o nifer sydd, ynghyd â’r Arolygiadau Achosion Craidd, yn ffurfio’r rhaglen tair blynedd o ‘Arolygu Gwaith Troseddwyr Ifanc’ sy'n cael ei gydgysylltu gan Arolygiaeth Prawf EM. Wedi'i arwain gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, roedd y tîm ar gyfer yr arolygiad hwn yn cynnwys arolygwyr o Arolygiaeth Prawf EM, y Comisiwn Ansawdd Gofal ac o Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru - arolygwyr sydd â diddordeb uniongyrchol yn y pwnc dan sylw.

Bu’r tîm arolygu’n ymweld â saith ardal awdurdod lleol, yn archwilio 75 o achosion unigol lle oedd plant wedi cael eu hatgyfeirio i dderbyn ymyriadau i atal troseddu, ac yn siarad ag amryw byd o ymarferwyr a rheolwyr gwasanaethau plant, yr heddlu ac iechyd. Ar y diwedd, nid oedd unrhyw amheuaeth gennym fod bywydau personol nifer o’r plant sydd wedi cael eu hadnabod i fod yn ‘fwy tebygol o droseddu’ yn eithriadol anodd. Mae’n hawdd deall bod amodau byw rhai o’r plant, a’r dylanwadau arnynt, yn golygu bod y plant hyn yn fwy tebygol o droseddu na phlant sydd â ffyrdd o fyw llai di-drefn.

Roedd yr arolygiad wedi canolbwyntio ar yr ystod 8-13 oed. Roedd hyn yn rhychwantu'r oed o gyfrifoldeb troseddol yng Nghymru a Lloegr (10 oed) ac yn cynnwys y grŵp oed lle mae cynlluniau atal yn cael eu cychwyn amlaf. Nod ymyrraeth gan y wlad, sy’n aml yn seiliedig ar ymchwil, yw gwella’r ‘ffactorau gwarchodol' a lleihau’r ‘ffactorau risg’ sy’n bresennol ym mywyd plentyn ac sy’n gwneud ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yn llai neu’n fwy tebygol.

Daeth yr arolygiad i’r casgliad bod yna waith partneriaeth hynod dda yn cael ei wneud a bod yna ethos strategol cyffredin ynghylch troseddu gan bobl ifanc. Fodd bynnag, dylid hefyd peidio ag anghofio’r her; mae’n hollol glir bod nifer o blant sydd wedi cael eu hadnabod i fod yn fwy tebygol o droseddu nag eraill wedi profi nifer o ffactorau risg a bod eu bywydau yn y dyfodol yn debygol o gael eu heffeithio'n andwyol, efallai am byth.

Gwelsom nifer o esiamplau o waith atal a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant, ond dim digon o werthuso cydgysylltiedig o ba ymyriadau sydd wedi eu profi i lwyddo yn y tymor hir. Mae angen cofnodi gwell ac ymarfer mwy soffistigedig wrth fesur cynnydd, ar lefel leol a chenedlaethol: ystyrir bod sawl agwedd o’r prosesau creiddiol a’r fframweithiau asesu yn ormodol o fiwrocrataidd a di-fudd ac, wrth i ni gychwyn ar gyfnod o gyfyngu ar gyllidebau, credwn fod angen adolygiad sylfaenol o’u heffaith, eu gwerth a’u costau.

Mae buddsoddi mewn gwasanaethau atal yn y cyfnod hwn ym mywyd plentyn yn debygol o fod yn rhatach na cheisio gweithio gydag unigolyn unwaith ei fod yn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, mae adnoddau yn y maes hwn yn aml yn rhai tymor byr ac yn dueddol o gael eu tynnu’n ôl pan fydd toriadau i'r gyllideb. Yn ein barn ni, mae gan fuddsoddiad yn y gwaith hwn y potensial nid yn unig i fod o fudd i blant unigol ond hefyd i gymdeithas yn y tymor hir. Er ein bod wedi ein calonogi gan yr arferion gorau a welsom, mae nifer o argymhellion wedi cael eu gwneud i helpu i greu mwy o gysondeb ar draws gwahanol feysydd. Rydym yn gobeithio y bydd y rhain yn cael eu gweithredu’n lleol a chenedlaethol.

*Denis O’Connor*
*Prif Arolygydd Cwnstabliaeth EM*

*Andrew Bridges*
*Prif Arolygydd Prawf EM*

*Cynthia Bower*
*Prif Weithredwr y Comisiwn Ansawdd Gofal*

*Peter Higson*
*Prif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru*

*Gorffennaf 2010*

Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cydnabyddiaeth | 2 |
| Rhagair | 3 |
| Prif Ddarganfyddiadau ac Argymhellion | 5 |
| Argymhellion | 7 |
| 1. YMARFER SY'N SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH | 8 |
| 2. ARWEINYDDIAETH | 11 |
| 3. ADNABOD AC ASESU | 15 |
| 4. DARPARU | 23 |
| 5. EFFAITH | 31 |
| Atodiad 1: Rhestr Termau | 35 |
| Atodiad 2: Methodoleg yr Arolygiad | 38 |
| Atodiad 3: Rôl yr Arolygiaethau a'r Cod Ymarfer | 39 |

## Prif Ddarganfyddiadau ac Argymhellion

Dechreuodd nifer o oedolion sydd yn y system cyfiawnder troseddol droseddu pan oeddent yn blant neu yn eu harddegau cynnar, yn aml ar ôl cael eu heffeithio gan ffactorau a oedd yn golygu eu bod yn fwy tebygol o droseddu. Edrychodd yr arolygiad hwn ar y dulliau o atal troseddu gan blant. Mae'r adran yma yn edrych ar arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar arweinyddiaeth, sut y mae staff yn adnabod plant sy'n fwy tebygol o droseddu, eu hasesiad yn dilyn hynny, beth sy'n cael ei ddarparu a sut y mae llwyddiant yn cael ei fesur.

Wrth archwilio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gellir grwpio gwaith atal troseddu yn bedair agwedd neu 'faes': Y Teulu; Ysgol a Gwaith; Ffordd o Fyw, y Gymdogaeth a'r Gymuned; ac arferion yn ymwneud â'r Hunan, yr Unigolyn a rhai Personol. Felly, y rhain oedd ein cyfeirbwyntiau ar gyfer ein harolygiad. Yn gyffredinol, cawsom fod y rhai a oedd yn gwneud gwaith atal, gan gynnwys gweithwyr iechyd, yn ymwybodol o elfennau arferion effeithiol hyd yn oed os nad oeddent yn gallu eu cyfleu mewn ffordd strwythuredig. Roedd y ffocws yn fwy ar ffactorau 'risg' yn hytrach na rhai 'gwarchodol' ac, ar adegau, defnyddiwyd ymyriadau oherwydd eu bod ar gael yn hytrach na fel ymateb i asesiad strwythuredig.

Ar arweinyddiaeth, roedd yr uwch reolwyr a'r ymarferwyr yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd inni ymweld â nhw ethos strategol a phartneriaeth cyffredin ar gyfer atal pobl ifanc rhag troseddu, a hefyd ar draws yr agendâu troseddu a phlant. Roedd llawer o'r rhain yn ymgorffori (yn Lloegr) y pum canlyniad yn *Every Child Matters* a oedd yn berthnasol ar y pryd. Roedd enghreifftiau o integreiddio'n cynnwys cronni cyllid, secondio staff, cadeirio cyfarfodydd a pheth cyfochri cynlluniau rhwng asiantaethau. Nid oedd y gwasanaethau iechyd wedi eu hintegreiddio i'r un graddau ac nid oeddent bob amser yn gweld eu hunain fel bod yn allweddol i'r agenda atal – er eu bod yn integredig yn weithredol, dangoswyd rhai canlyniadau cadarnhaol.

Yn ein barn ni allai'r gwasanaeth prawf chwarae mwy o ran; er enghraifft, gallent wneud cyfraniad gwerthfawr o ganlyniad i'w gwaith o oruchwylio troseddwyr sydd bellach yn rhieni, yn enwedig yn y cam adnabod ac asesu.

Roedd gan bob maes ystod o raglenni a oedd yn cael eu hariannu'n genedlaethol ac yn bennaf yn targedu meysydd lle oedd angen sylweddol. Roedd y rhain yn gyfrwng i gydweithio, ond roedd natur tymor byr yr ariannu a'r gwahanol ofynion ar gyfer adrodd yn gwneud eu parhad yn ansicr. Roedd yna feichiau gweinyddol sylweddol y gellid eu hysgafnu pe bai'r cynllunio tymor hir a'r cyllid yn well.

Roedd y rhan fwyaf o'r plant a aseswyd i fod yn fwy tebygol o droseddu nag eraill wedi cael eu hadnabod felly naill ai gan yr ysgol neu'r heddlu. Ac eithrio nyrsys ysgol, roedd atgyfeirio gan y gwasanaethau iechyd yn brin.

Roedd y cyn Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd wedi datblygu'r Fframwaith Asesu Cyffredin (CAF) fel offeryn cyd-asesu ar draws yr holl wasanaethau plant yn Lloegr. Y disgwyl oedd y byddai wedi cael ei fabwysiadu yn Lloegr erbyn Mawrth 2008. Casglodd yr arolygwyr, o leiaf o ran materion atal troseddu, bod y defnydd a oedd yn cael ei wneud o'r fframwaith hwn yn amrywio'n eang, o ddim o gwbl i'w fabwysiadu'n llwyr fel ei fod yn rhan o'r prosesau beunyddiol. Roedd dal nifer sylweddol o ymarferwyr ym mhob asiantaeth a wyddai fawr ddim am y Fframwaith Asesu Cyffredin ac na wyddent sut i gwblhau un. Mae'r heddlu wedi herio gwerth a chostau cynnal y CAF yn y gorffennol. Yn yr hinsawdd bresennol o doriadau cyllidebol ar draws y sector preifat mae angen gwerthusiad clir o effaith, gwerth a chost cysylltiad parhaus gan asiantaethau partner yn yr hysbysiad hwn a'r broses asesu.

Ar y cyfan, roedd Onset, y fframwaith atgyfeirio ac asesu arbenigol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2006) yn cael ei gwblhau a'i adolygu gan weithwyr allweddol, er bod angen gwella'r cynlluniau ymyrryd.

Roedd cryn ddryswch ynghylch llwybrau atgyfeirio a rhwng defnyddio'r fframwaith a oedd yn ei le cyn y Fframwaith Asesu Cyffredin, y Fframwaith Asesu Cyffredin a'r Onset. Roedd llawer yn ansicr ynghylch pwy oedd yn cwblhau beth, pryd ac i ba raddau.

Ar y llaw arall, gwelsom enghreifftiau effeithiol o gyfarfodydd amlasiantaeth yn arwain at roi sylw i anghenion holistig y plant, wedi eu hategu gan rannu gwybodaeth priodol.

Nid oedd gweithwyr allweddol yn deall pryderon iechyd cyffredinol ynghylch ffactorau 'risg' yn dda iawn ac roeddent weithiau'n eu diystyru. Lle oedd staff iechyd proffesiynol yn cyfrannu'n uniongyrchol at waith y Tîm Troseddwyr Ifanc[1], yn hytrach nag at wasanaethau iechyd prif ffrwd, roedd asesiadau trylwyr o faterion iechyd yn fwy tebygol o gael eu gwneud.

Unwaith oedd plentyn wedi'i adnabod a'i asesu'n addas, roedd yn cael ei roi ar raglen atal yn fuan iawn wedyn fel arfer. Cawsom ein plesio gan ansawdd y gweithwyr allweddol. Roedd hyn yn cynnwys eu gallu i gynnwys plant a rhieni neu ofalwyr, i gynnal y cyfraniad hwnnw, i gadw mewn cysylltiad cyson, a'u gwybodaeth am a'u hymrwymiad i'r plant yr oeddent yn gweithio gyda nhw. Roedd peth o'r gwaith cadarnhaol hwn yn ymestyn i waith amrywiaeth lle oedd dau o bob tri wedi ystyried y materion perthnasol ac wedi cymryd camau i leihau effaith y ffactorau hyn ar y gwaith oedd yn cael ei wneud.

Ac eithrio un, roedd yr agenda atal wedi ei gwreiddio'n ddwfn yn y Tîm Troseddwyr Ifanc ac yn bennaf seiliedig ar y Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid (YISP) a'r Rhaglen Cynnwys Ieuenctid (YIP). Ar yr adegau pan oedd plentyn, am ba bynnag reswm, y tu allan i ddalgylch y panel, roeddem yn bryderus nad oeddent efallai'n derbyn yr un cyfleoedd ymyrryd â phlant a oedd o fewn y dalgylch.

Roedd sgôp yr ymyriadau'n amrywio'n eang a defnyddiwyd rhai ymyriadau hynod syml a rhad ond llwyddiannus, fel gwella hunan-werth drwy gynnig torri gwallt a phrynu dillad newydd cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Ond mewn rhai achosion, roedd yn anodd deall pam oedd yr ymyriad wedi'i ddewis oherwydd nad oedd yn ymddangos i ddelio â'r materion oedd wedi eu codi yn asesiad y plentyn.

Roedd ansawdd y cynlluniau ymyrryd yn amrywio o rai a oedd yn glir, gydag amserlen bendant ac yn cael eu hadolygu, i rai heb gynllun o gwbl. Roedd lleiafrif sylweddol ohonynt heb ddigon o fanylion, canlyniadau cerrig milltir na strategaeth ymadael. Roedd hyn yn arbennig o wir am ymyriadau iechyd.

Mae mesur effaith gweithgareddau atal yn broblematig. Ychydig iawn o dystiolaeth a welsom o werthuso lleol naill ai o'r ymyriadau unigol nac ychwaith o'r canlyniadau tymor hirach i'r plant. Er enghraifft, unwaith oedd achos wedi ei gau, nid oedd yr unigolyn yn cael ei dracio i weld a ydoedd yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol nes ymlaen. Er bod gan y fframwaith a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (Onset) system sgorio, sy'n mesur cynnydd yn ystod cyswllt gyda'r plentyn, nid oedd hwn yn cael ei ddefnyddio gymaint ag y gallai i asesu pa mor bell oedd yr unigolyn hwnnw wedi dod. Er bod hyn yn gallu cynnwys cynnydd gyda materion iechyd, gwelsom beth gwerthuso ar lefel weithredol ond yn aml heb ei gysylltu i ddata gan y Tîm Troseddwyr Ifanc ac ychydig iawn o dystiolaeth o fonitro perfformiad yn ffurfiol ar lefel strategol.

Yn ogystal, yn ein barn ni, mae dibynnu ar Ddangosydd Cenedlaethol 111 (Lloegr) a Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid 1 yng Nghymru – Newydd Ddyfodiaid yn y System Cyfiawnder Troseddol, yn gyfeiliornus fel 'mesur unigol' o lwyddiant gwaith atal troseddu gan bobl ifanc. Gellir ei ddehongli fel mesur procsi o ymddygiad troseddol, ond mewn gwirionedd mae'n mesur cyrraedd y system drwy geryddu a rhybuddion terfynol gan yr heddlu. Mae yna bellach nifer o foddion 'cyn-ceryddu' fel y Penderfyniad Adferol Ieuenctid, Hysbysiadau Cosb Benodedig, a ffyrdd llai ffurfiol eraill o ddelio â throseddau lefel isel. Nid yw penderfyniadau o'r fath yn cyfrif tuag at Ddangosyddion Cenedlaethol 111 na'r Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid 1 yng Nghymru.

Gall ymyrryd yn fuan yn natblygiad plentyn dalu ar ei ganfed i'r plentyn a chymdeithas. Nid yw'n beth hawdd i'w wneud bob tro a chael ei wrthwynebu gan rieni apathetig. Er hynny mae'r tîm arolygu'n credu bod y prosesau sydd yn eu lle, er bod lle i wella arnynt a'u rheoli'n well, yn gweithio a bod y darlun cyffredinol o waith atal yn un cadarnhaol, er bod angen dod o hyd i ffyrdd gwell o fesur a gwerthuso llwyddiant.

[1] Rydym yn defnyddio 'Tîm Troseddwyr Ifanc' fel term generig drwy gydol yr adroddiad er bod rhai timau'n cael eu galw'n enwau eraill fel y 'Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc' neu'r 'Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid' mewn rhai ardaloedd. Ond pan fyddwn yn cyfeirio at dîm penodol, byddwn yn defnyddio'r enw a ddefnyddir yn arferol arnynt.

## Argymhellion

*Dylai'r Adran Addysg a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sicrhau:*

- bod y Fframwaith Asesu Cyffredin a'r asesiadau arbenigol ar gyfer plant sy'n debygol o droseddu yn cael eu hail-ddylunio fel y gellir eu defnyddio'n gyson ac effeithiol heb ddyblygu.

*Dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Gartref sicrhau:*

- eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i ailwampio'r cyllid sydd ar gael i wneud gwaith atal troseddu gan bobl ifanc er mwyn gallu cynllunio'n well yn y tymor hir.

*Dylai'r adrannau perthnasol o'r Llywodraeth yng Nghymru a Lloegr sicrhau:*

- bod y defnydd a wneir o Ddangosydd Cenedlaethol 111 a Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid 1 yng Nghymru, sy'n mesur Newydd Ddyfodiaid yn y system cyfiawnder troseddol, yn cael ei adolygu.

*Dylai Ymddiriedolaethau Prawf sicrhau:*

- y medrant ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Plant 2004 drwy atgyfeirio a chymorth at y gwasanaethau atal troseddau pobl ifanc, lle mae cyfiawnhad dros wneud hyn ar gyfer plant yr oedolion y maent yn eu goruchwylio.

*Dylai bob Awdurdod Lleol a'u partneriaid sicrhau:*

- bod y Fframwaith Asesu Cyffredin, yr asesiadau arbenigol ar gyfer plant sy'n debygol o droseddu mae llwybrau at ymyriad yn anfiwrocrataidd ac fe'u defnyddir yn gyson ac effeithiol i adnabod niwed ac angen posibl.
- bod yr holl staff mewn rolau plentyn-ganolog yn deall ac adnabod ffactorau 'risg' a 'gwarchodol' troseddol ynghyd â materion amddiffyn plant cysylltiedig ac yn gallu cwblhau Fframwaith Asesu Cyffredin neu drefnu bod hyn yn cael ei wneud
- bod gwybodaeth gyfun o asesiadau Onset yn cael ei defnyddio'n gorfforaethol i oleuo'r gwaith o gynllunio, darparu a chomisiynu gwasanaethau.
- bod effaith gwaith atal troseddau ieuenctid lleol yn cael ei werthuso'n briodol a'r ymarfer yn cael ei addasu yng ngoleuni hynny.

*Dylai darparwyr gofal iechyd a staff sy'n gweithio gyda phlant sicrhau:*

- y medrant adnabod arwyddion o droseddu posibl yn y dyfodol, atgyfeirio'r achosion yn briodol, a chyfrannu at asesiadau, cynlluniau ymyrryd ac adolygiadau o blant sy'n debygol o droseddu.

*Dylai bob rheolwr atal a gweithiwr allweddol sicrhau:*

- bod gan bob plentyn sy'n dilyn ymyriad atal troseddu gynllun ymyrryd Onset cyfredol sy'n ddigon manwl, sydd ag amserlen, sy'n adlewyrchu asesiad y plentyn, sy'n cael ei adolygu'n gyson, sydd â mesurau canlyniad clir a strategaeth ymadael.

# 1. YMARFER SY'N SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH

| **Maen Prawf Cyffredinol:** |
|---|
| Mae'r ardal yn gweithio yn unol ag egwyddorion ymarfer effeithiol |
| ***Yr hyn oeddem yn disgwyl ei weld:*** |
| - Ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac egwyddorion 'beth sy'n gweithio' yn goleuo ymarfer |
| - Mae'r ardal yn gwneud y mwyaf o'r ffactorau gwarchodol ac yn lleihau'r ffactorau risg sy'n dylanwadu ar y potensial i droseddu |
| - Mae'r plant iawn yn cael eu targedu ar gyfer asesiad ac ymyriadau |

1.1 Mae yna gryn dipyn o ymchwil sydd wedi ceisio adnabod 'beth sy'n gweithio' i atal plant rhag troseddu. Er enghraifft, yn 2005, cyhoeddodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) ar gyfer Cymru a Lloegr astudiaeth, *Risk and Protective Factors*, a oedd yn egluro beth oedd ymarfer effeithiol. Yn fyr, roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod yna nifer o ffactorau 'risg' ym mywydau plant (sy'n gallu gwneud troseddu'n fwy tebygol), fel goruchwyliaeth wael gan y rhieni, a nifer o ffactorau gwarchodol fel amgylchedd cefnogol yn yr ysgol, sy'n gallu gwneud troseddu'n llai tebygol. Mae hyn yn golygu, i fod yn effeithiol, bod angen ymyriadau i sicrhau bod y ffactorau 'risg' yn cael eu lleihau a'r ffactorau 'gwarchodol' yn cael eu hyrwyddo. (gweler Atodiad 3 am fwy o fanylion)

1.2 Gellir grwpio'r ffactorau risg a gwarchodol o dan bedwar 'maes':

- Y teulu
- Yr ysgol a gwaith
- Ffordd o fyw, y gymdogaeth a'r gymuned
- Arferion yn ymwneud â'r Hunan, yr Unigolyn a rhai Personol

Yn ymarferol, mae'r pedwar maes yn gysylltiedig ac nid yw'n effeithiol rhoi sylw i un ffactor ac nid i'r lleill. Yn ogystal, mae angen sefydlu ar gyfer bob unigolyn a ydyw ffactor yn ffactor risg neu warchodol *ar gyfer yr unigolyn arbennig hwnnw.* Yn olaf, nid yw ffactorau risg a gwarchodol yn sefydlog, maen nhw'n ddeinamig ac yn gallu esblygu dros amser.

1.3 Mae nifer o oblygiadau i ymarfer o ganlyniad i'r amlinelliad hwn o ymarfer effeithiol yr oedd yr arolygiad yn edrych arno. Yn anad dim, roedd hyn yn cynnwys pa mor effeithiol oedd y prosesau o adnabod ac asesu ffactorau risg a gwarchodol. I hyn ddigwydd, cyflwynodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid offeryn fframwaith asesu a chynllunio arbenigol a elwir yn *Onset* y gellir ei ddefnyddio gan weithwyr atal mewn Timau Troseddwyr Ifanc. Mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar y pedwar prif faes y cyfeirir atynt uchod ac yn llywio gweithwyr i adnabod y ffactorau risg a gwarchodol perthnasol. Mae gan Onset system sgorio syml fel bod gweithwyr yn gallu asesu lefel mater neu broblem arbennig a thracio cynnydd dros amser. Ym mhob ardal, cawsom fod Onset wedi'i wreiddio'n dda a,

gan amlaf, yn cael ei ddefnyddio'n dda gan weithwyr unigol. Er gwaethaf hyn, ychydig iawn o dystiolaeth a welsom fod y data a gasglwyd o'r asesiadau'n cael ei ddefnyddio i oleuo'r gwaith o gynllunio, darparu a chomisiynu ymyriadau ar lefel strategol.

1.4 Roedd nifer o blant yn cymryd rhan mewn prosiectau a oedd yn cael eu rhedeg gan sefydliadau y tu allan i'r Timau Troseddwyr Ifanc, er enghraifft prosiectau sector gwirfoddol a rhai gwasanaethau a oedd yn rhan o wasanaethau cyffredinol, h.y. rhai oedd ar gael i blant yn gyffredinol. Yma roedd darlun fymryn yn wahanol lle nad oedd Onset yn cael ei ddefnyddio i asesu. Gan amlaf, roedd y Fframwaith Asesu Cyffredin (CAF) yn cael ei ddefnyddio yn y sefyllfaoedd hyn ynghyd ag unrhyw asesiad gan asiantaeth unigol. Mae'r CAF ar y cyfan yn gydnaws ag Onset, o ran bod y meysydd yn debyg (ac roedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi cyhoeddi canllawiau ar 'fapio' un dull i'r llall), ond, yn bwysicach, roedd Onset yn cynnig ffordd o werthuso cynnydd dros amser tra'i bod yn anoddach gwneud hyn drwy'r CAF. Mae'r CAF yn wirfoddol yng Nghymru.

1.5 Mae ystod y gwasanaethau i blant sy'n cael eu hystyried i fod yn fwy tebygol o droseddu yn gymhleth ac yn anghyson ar draws Cymru a Lloegr. Y prif wasanaethau sy'n cael eu goruchwylio a'u hariannu gan y Bwrdd Cyfiawnder ieuenctid yw:

- Mae'r Paneli Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid yn ceisio atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu gan rai rhwng 8-13 oed drwy wneud yn siŵr eu bod nhw a'u teuluoedd yn gallu cael gafael ar wasanaethau prif ffrwd. Mae'r Paneli hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol asiantaethau sy'n cytuno ar gynllun i gefnogi'r plentyn a'i deulu ef neu hi.
- Mae'r Rhaglen Cynhwysiant Ieuenctid yn gweithio gyda rhai rhwng 8-17 oed mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig a lle mae'r troseddu mwyaf. Yn ymarferol, cawsom fod y Rhaglenni Cynhwysiant Ieuenctid yn darparu'n bennaf ar gyfer y plentyn hŷn, h.y. dros 13 oed.

1.6 Yn ogystal, yn Lloegr, mae Rhaglenni Ymyriadau Teuluol (FIP) yn cael eu rhedeg gyda chyllid wedi'i neilltuo gan y llywodraeth ganolog i weithio'n ddwys gyda theuluoedd agored i niwed sy'n cael eu hystyried i fod â risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu. Yng Nghymru, mae dull tebyg yn cael ei ddatblygu o'r enw y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd.

1.7 Ym mhob ardal inni ymweld â nhw, roedd rhyw fath o bartneriaeth rhwng yr Ysgolion a'r Heddlu wedi cael ei sefydlu. Yn Lloegr, rhyw fath o Bartneriaeth Ysgolion Diogelach (SSP) oedd hyn. Trefniant ffurfiol yw'r Bartneriaeth Ysgolion Diogelach rhwng ysgolion a'r heddlu i weithio gyda'i gilydd i gadw pobl ifanc yn ddiogel, i leihau troseddu ac i wella ymddygiad. Fel rhan o'r trefniadau hyn, mae plismon neu blismon cymunedol yn gweithio yn yr ysgol neu mewn clwstwr o ysgolion gyda'r disgyblion a'r staff. Roedd yr union fodel oedd wedi'i fabwysiadu ym mhob ardal yn amrywio o'r model dwys lle mae un plismon dynodedig yn gweithio mewn un ysgol, i ddull mwy hyblyg a mwy annelwig weithiau lle mae'r ysgolion yn cael eu goruchwylio gan y Tîm Plismona Cymdogaeth. Cawsom yn yr ardaloedd o Loegr inni ymweld â nhw bod y model oedd wedi'i fabwysiadu fel rheol yn adlewyrchu'r adnoddau oedd ar gael i'r heddlu ac nid o reidrwydd unrhyw angen lleol arbennig mewn ysgol neu ardal leol benodol. Yng Nghasnewydd (yr unig ardal o Gymru inni ymweld â hi), roedd y 'rhaglen graidd cyswllt ysgolion

Cymru Gyfan' yn cael ei defnyddio. Roedd hon yn canolbwyntio mwy ar raglen ddwys o ddarparu gwersi gan blismyn achrededig. Nid oedd y strwythur hwn yn ymddangos i roi llawer o amser o gwbl i'r plismyn hynny gael cyswllt gyda phlant y tu allan i'r gwersi ffurfiol. Fodd bynnag, roedd nifer o ysgolion yn gweithio gyda'r Timau Plismona Cymdogaeth.

1.8 Cawsom fod y gweithwyr allweddol yn ymwybodol o elfennau ymarfer effeithiol er nad oeddent bob amser yn gallu cyfleu hyn mewn ffordd strwythuredig. Roedd gweithwyr yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar ffactorau risg yn hytrach na rhai gwarchodol ac, ar adegau, roedd yr ymyriadau yn tueddu i gael eu defnyddio am eu bod ar gael ac nid am eu bod wedi cael eu hadnabod fel ymateb i asesiad strwythuredig (gweler darparu). Er hynny, roedd nifer o esiamplau da o ymyriadau oedd wedi cael eu craffu o ran egwyddorion ymarfer effeithiol, fel clybiau ar ôl ysgol, mentora gan gyfoedion a chyrsiau magu plant.

1.9 Ar y cyfan, roedd gan y gweithwyr iechyd yn y Timau Troseddwyr Ifanc ddealltwriaeth dda o egwyddorion ymarfer effeithiol a'r ffactorau risg a gwarchodol a oedd yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg lle oedd gweithwyr iechyd proffesiynol yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc na rhai oedd yn cael eu defnyddio yn y gwasanaethau prif ffrwd. Fodd bynnag, roedd gan rai staff allweddol cyffredinol lai o ddealltwriaeth o bryderon iechyd cyffredinol, a allai weithiau achosi oedi neu rwystro mynediad at wasanaethau iechyd hanfodol.

## 2. ARWEINYDDIAETH

| **Maen Prawf Cyffredinol:** |
| --- |
| Mae yna arweinyddiaeth leol effeithiol ar gyfer gwaith atal troseddu gan bobl ifanc. |
| ***Yr hyn oeddem yn disgwyl ei weld:*** |
| - Bod y strategaeth genedlaethol yn rhoi cyfeiriad clir i ardaloedd wrth iddynt ddatblygu eu dull o atal troseddu gan bobl ifanc. |
| - Bod yna ddull strategol o atal troseddu yn yr ardal |

*'Rydym yn chwilio am ffyrdd gwahanol o ddweud ie, nid un ffordd syml o ddweud na'*

Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant

2.1 Mae datblygu dull cydlynol o ddarparu'r agenda atal yn dibynnu'n drwm ar weledigaeth ac arweinyddiaeth strategol gan asiantaethau partner, wedi ei harwain gan reolwyr gwybodus, gweledol ac ymrwymedig, ynghyd â staff brwdfrydig. Roeddem yn falch o weld bod yr holl gynlluniau plant a phobl ifanc a'r strategaethau lleihau troseddu ac anhrefn / cynlluniau diogelwch cymunedol y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys cyfeiriadau at yr agenda atal a oedd yn awgrymol a phenodol. Roedd gan wasanaeth yr heddlu, drwy Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), faes busnes penodol ar gyfer plant a phobl ifanc ac roedd gan bob un o'r heddluoedd inni ymweld â nhw ryw fath o gynllun ymyrryd ar gyfer plant a phobl ifanc.

2.2 Er bod dull cydlynol gan y rhan fwyaf o asiantaethau, roedd un eithriad clir yn achos y gwasanaeth prawf. Ychydig iawn o fewnbwn oedd i ddatblygu dull strategol o atal troseddu gan bobl ifanc ymhlith uwch reolwyr prawf, ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu ar lefel weithredol. Er enghraifft, pur anaml oedd gan weithwyr atal sy'n gweithio gyda phlentyn a theulu gyswllt gyda staff prawf a oedd efallai'n gweithio gyda rhiant neu frawd / chwaer. Roedd hyn yn siomedig ac nid oedd yn adlewyrchu'r canllawiau yng Nghylchlythyr Prawf 22/2005 *Gweithredu Adran 10 Deddf Plant 2004: Cydweithrediad Rhyngasiantaethol i wella lles plant – Ymddiriedolaethau Plant.* Roedd y cylchlythyr hwn yn atgoffa Prif Swyddogion (fel yr oeddent bryd hynny) bod Deddf 2004 yn sefydlu dyletswydd ar y gwasanaeth prawf i gydweithredu a gwneud trefniadau gydag awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol eraill i wella lles plant.

2.3 Yn ddieithriad, roedd y gwaith maes yn elwa o ganllawiau a rhaglenni ehangach, fel y FIP, YIP, YISP, y Strategaeth Gyffuriau Genedlaethol a'r Cynllun Gweithredu Troseddau Ieuenctid (YCAP)[2].

---

[2] Gweler y Rhestr Termau am fwy o fanylion

2.4 Rhaglenni dwys yw'r FIP, y YIP a'r YISP sy'n aml yn canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol cyfyngedig, er enghraifft, ystad dai arbennig neu glystyrau o wardiau. Mewn rhai ardaloedd, roedd hyn wedi arwain at ddalgylchoedd llai a rhai ymyriadau'n canolbwyntio ar blant hŷn neu ôl-droseddu.

2.5 Er ei bod yn glir bod y cyllid ar gyfer llawer o'r prosiectau atal wedi cael eu targedu'n feddylgar at feysydd lle oedd angen sylweddol, roedd llawer o'r cyllid (gan gynnwys cyllid gan y YJB) ar gyfer y prosiectau hyn yn aml yn dymor byr eu natur. Yr her i reolwyr strategol oedd sicrhau bod adnoddau'n cael eu prif ffrydio i ffrydiau cyllideb tymor hir. Roedd rhai ardaloedd wedi bod yn fwy llwyddiannus nag eraill yn gwneud hyn. Lle oedd awdurdodau lleol wedi gallu gosod gwaith atal o fewn cyd-destun y mesurau canlyniad yn *Every Child Matters* yn Lloegr neu'r *Saith Nod Craidd ar gyfer Plant* (Cymru), roedd mwy o deimlad bod gwaith atal yn cael ei integreiddio o fewn y weledigaeth strategol gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc.

2.6 Roedd yr holl ardaloedd inni ymweld â nhw yn honni bod ganddynt ddulliau partneriaeth cryf o ddelio â materion atal troseddu gan blant. Roedd rhai ardaloedd yn fwy gweladwy yn hyn nag eraill. Roedd y rhai a oedd yn well yn tueddu i gael y mater fel eitem reolaidd ar y Bartneriaeth Lleihau Troseddu ac Anhrefn / Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Ymddiriedolaethau / Byrddau Plant. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn Hartlepool a Bryste. Roedd yr ardaloedd hyn yn hyrwyddo ethos o bwrpas cyffredin ymhlith eu partneriaid. Roedd yna gysylltiadau effeithiol rhwng yr unedau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, y Timau Troseddwyr Ifanc a'r gwasanaethau plant ac nid oedd gwaith yn cael ei gyflawni mewn 'seilos' ar wahân.

**Yn Stoke-on-Trent, roedd yr awdurdod lleol yn targedu gwasanaethau plant drwy eu darparu ar adegau arbennig mewn ardaloedd lle oedd troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem, fel ar nos Wener a Sadwrn pan nad oedd gwasanaethau eraill ar gael. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau symudol gwych ac ailwampio sylweddol o ganolfannau cymunedol a chlybiau ieuenctid. O ganlyniad, roedd yr heddlu lleol wedi gweld llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol.**

2.7 Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, roedd teimlad o integreiddio strategol yn amlwg. Roedd hyn wedi'i gyflawni drwy helpu i sicrhau bod yr holl blant a ystyriwyd i fod yn fwy tebygol o droseddu yn gallu cael gafael ar rai gwasanaethau cyffredinol (yn unol â *Every Child Matters* a'r *Saith Nod Craidd ar gyfer Plant*), e.e. gwasanaethau ieuenctid. Mae'n amheus a oedd y gwasanaeth arbennig hwnnw yn briodol bob tro. Tra ym mhen arall y sbectrwm roedd y trothwyon ar gyfer mynediad at wasanaethau arbenigol iawn, e.e. y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS) wedi cael eu gostwng neu'r gwasanaeth wedi cael ei addasu, er enghraifft gweithwyr arbenigol yn darparu cyngor i weithwyr eraill yn lle cymryd yr achos atgyfeirio eu hunain. Roedd y dull integredig i'w weld amlycaf yng Ngogledd Sir Efrog ond yn cael ei ddatblygu mewn ardaloedd eraill hefyd, yn enwedig ym Mryste.

2.8 Ac eithrio Gogledd Sir Efrog, roedd yr agenda atal yn cael ei rheoli'n gadarn o fewn y Tîm Troseddwyr Ifanc.

**Roedd Gogledd Sir Efrog wedi cymryd barn ehangach drwy gronni nifer o gyllidebau a datblygu dull o Gymorth Ieuenctid Integredig (IYS). Roedd hyn wedi disodli ei ddull blaenorol o dargedu (YISP, YIP ayb) ac wedi golygu bod yr holl blant yn y sir wedi bod yn gymwys i dderbyn gweithgareddau cadarnhaol.**

Roedd hyn yn debyg i'r model yn Hartlepool lle oedd grwpiau amlasiantaeth, a elwir yn 'Dimau O Gwmpas yr Ysgol Uwchradd' a 'Thimau o Gwmpas yr Ysgol Gynradd', yn fan cychwyn ar gyfer adnabod ac asesu.

2.9 Roedd angen cytundeb partneriaeth ac ymrwymiad sylweddol rhwng y prif bartneriaid, fel y gwasanaethau plant a'r heddlu, i ddarparu'r dulliau hyn. Mae'r heddluoedd, mewn rhai achosion, wedi gorfod bod yn fwy hyblyg yn eu dulliau o ddelio â throseddau plant. O dan y model plismona cymdogaeth, mae nifer o blismyn a phlismyn cymunedol wedi dod i ganolbwyntio mwy ar atal a llai ar orfodaeth. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn null y Bartneriaeth Ysgolion Diogelach.

2.10 Yn ogystal, mewn nifer o ardaloedd, roedd cyllid ychwanegol wedi'i sicrhau i ddarparu agweddau ar y Cynllun Gweithredu Troseddau Ieuenctid. Yn yr ardaloedd hyn o Loegr, roedd asiantaethau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn enwedig ar y dull 'Operation Staysafe'. Ymdrech gydgysylltiedig oedd Operation Staysafe, a oedd yn cynnwys yr heddlu a gwasanaethau plant. Nod y prosiect hwn oedd amddiffyn plant agored i niwed a oedd allan yn hwyr y nos ac efallai mewn perygl o ddioddef troseddau yn eu herbyn neu o gael eu denu i gyflawni troseddau eu hunain. Roedd yr heddlu a'r gwasanaethau plant yn dod at y plant hyn ac yn mynd â nhw adref neu i rywle diogel ac efallai'n cynnig ymyriadau gwirfoddol iddynt. Hefyd, roedd gan nifer o heddluoedd blismyn cymorth a oedd yn rhan o gynlluniau gwych i droi pobl ifanc ymaith o droseddu, fel Ozbox yn Derbyshire.

**Roedd y cynllun troi ymaith Ozbox yn cyflwyno pobl ifanc i fyd ymarfer corff a phaffio dim cyffwrdd. Roedd yn cael ei redeg gan Gwnstabliaeth Derbyshire fel rhan o'r strategaeth cynnwys ieuenctid gan yr heddlu. Roedd y cwnstabliaeth wedi cyflenwi cerbydau i'r tîm o hyfforddwyr heddlu fel y gallent deithio o gwmpas y sir tra bod cynghorau sir a phartneriaid cymunedol wedi prynu cyfarpar paffio. Roedd y sesiynau Ozbox yn para am awr ac yn seiliedig ar thema paffio-ymarfer.**

2.11 Roedd cyflwyno a defnyddio'r CAF yn fater hollbwysig (gweler Adnabod ac Asesu). Roedd defnyddio'r asesiad hwn yn amrywio'n helaeth, o ddim defnydd o gwbl bron i weithrediad llawn, gyda chynlluniau i'w ddatblygu ymhellach yn fersiwn electronig (eCAF). Yn gyffredinol, roedd y defnydd yn adlewyrchu lefel yr ymrwymiad amlwg gan uwch bartneriaid i'r agenda atal. Roedd y defnydd amrywiol o'r CAF yn siomedig o ystyried bod canllawiau'r Adran Ysgolion, Plant a Theuluoedd, fel yr oedd ar y pryd, yn nodi y dylai'r CAF fod yn weithredol erbyn Mawrth 2008. Roedd canllawiau pellach ym Mawrth 2010[3] yn amlinellu bod angen rhoi rhesymau dros beidio ei ddefnyddio (Lloegr yn unig). Roedd yn sicr angen arweinyddiaeth gryfach i sicrhau bod yr offeryn hwn yn parhau i gael ei gyflwyno a'i reoli mewn ardaloedd lle mae'n llai gweladwy.

2.12 Mae ymrwymiad y gwasanaethau iechyd, yn enwedig yr Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol yn Lloegr, a'r Byrddau Iechyd yng Nghymru, at yr agenda atal troseddu gan bobl ifanc yn greiddiol bwysig, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny lle nad oes adnodd penodol ar gyfer atal. Nid oedd rhai gwasanaethau iechyd ar lefel strategol yn ystyried eu hunain i fod yn rhan annatod o atal troseddu. Ond gallai

[3] Canllawiau CAF 2007 y DCSF, sydd wedi eu hategu gan ganllawiau pellach ym mis Mawrth 2010

fod yna ddull strategol cryf[4] a rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau da o berthynas weithio agos rhwng gweithwyr iechyd, gweithwyr y Timau Troseddwyr Ifanc ac ysgolion – er bod y cysylltiadau gyda'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn fwy amrywiol. Roedd diffyg cysondeb ar draws y rhanbarthau yn Lloegr.

**Yn Derby, gwelsom gysylltiadau partneriaeth da i hybu gwaith effeithiol lle oedd adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar alcohol a throseddu cysylltiedig. Roedd cyfraniadau sylweddol wedi eu gwneud gan weithiwr iechyd y Tîm Troseddwyr Ifanc a gweithiwr y Prosiect Ysgolion Iach i ddarparu data cychwynnol clir i fesur perfformiad ymyriadau a'r cysylltiad rhwng yfed alcohol a throseddu.**

### *ARGYMHELLION*

*Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref sicrhau:*

- **eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i ailwampio'r cyllid sydd ar gael i wneud gwaith atal troseddu gan bobl ifanc er mwyn gallu cynllunio'n well yn y tymor hir.**

*Dylai Ymddiriedolaethau Prawf sicrhau:*

- **y medrant ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Plant 2004 drwy atgyfeirio a chymorth at y gwasanaethau atal troseddau pobl ifanc, lle mae cyfiawnhad dros wneud hyn ar gyfer plant yr oedolion y maent yn eu goruchwylio.**

[4] Yn Rhagfyr 2009 cyhoeddodd Llywodraeth EM ddogfen strategol o'r enw *Healthy Children, Safer Communities*.

# 3. ADNABOD AC ASESU

**Maen Prawf Cyffredinol:**

Mae yna systemau clir ar gyfer adnabod a chyflawni asesiadau cychwynnol o blant sy’n debygol o fynd i mewn i’r system cyfiawnder troseddol.

***Yr hyn oeddem yn disgwyl ei weld:***

**-** Bod yr holl staff sy’n gweithio gyda phlant yn effro i ffactorau risg a gwarchodol.

- Bod y Fframwaith Asesu Cyffredin (CAF) ac Onset yn cael eu defnyddio, gyda sylw arbennig yn cael ei roi i amrywiaeth ac anghenion eraill gan yr unigolyn.

- Gwybodaeth briodol, cofnodi a chyfnewid rhwng asiantaethau.

- Bod materion Addysg, Iechyd a Diogelu’n cael eu hasesu’n gywir ac atgyfeirio priodol yn digwydd.

- Bod yna fynediad diymdroi at gyngor ac asesu o ansawdd da ynghyd â chyswllt parhaus effeithiol gyda’r plentyn, rhiant neu ofalwr.

*‘....rydym yn gweithio gyda’r plant yn rhy hwyr, mae’r niwed yn aml fel petai wedi'i wneud yn barod’*

Plismon

***<u>Adnabod</u>***

3.1 Mae’r ymchwil y cyfeiriwyd ati'n gynharach yn darparu amrywiaeth o theorïau cymdeithasol ynghylch pwy sy'n *fwy tebygol* o droseddu nag eraill ac yn nodi pa mor bwysig yw ffactorau risg a gwarchodol. Mae'r pwyslais yn glir: maent yn *fwy tebygol*, nid *yn sicr* o droseddu.

3.2 Y ffactorau hyn oedd yn cael eu hystyried amlaf gan ymarferwyr wrth benderfynu pa blant y dylid cynnig ymyriadau iddynt. Os yw plentyn yn cyflwyno nifer o’r ffactorau risg hyn, nid yw’n golygu bod troseddu yn y dyfodol yn anochel. Bydd amryw o oedolion yn fyw heddiw sydd wedi cael profiad o'r ffactorau hyn yn eu plentyndod ond a aeth ymlaen i fyw bywydau llwyddiannus a chyfreithlon. Nid yw’n wyddor bendant o gwbl. Mae’n dilyn, felly, bod adnabod y plant hynny sydd ‘fwyaf tebygol o droseddu' yn gallu bod yn anodd iawn weithiau, yn enwedig o gydbwyso hyn yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael i dalu am unrhyw ymyriadau sydd eu hangen.

3.3 Roedd gan bron i 25% o’r plant yn y sampl achosion gynllun amddiffyn plant, neu’n destun ymholiadau o dan a47 Deddf Plant 1989 (dyletswydd i ymchwilio oherwydd risg o niwed difrifol) ac roedd nifer o rai eraill hefyd wedi bod yn yr un sefyllfa. Gwnaethom ddarllen neu fe glywsom am nifer o enghreifftiau o sgiliau magu plant gwael a disgrifiadau o’r amodau byw gwael, aflan hyd yn oed, yr oedd rhai plant yn byw ynddynt. Roedd y sialensau yr oedd rhai o’r plant hyn yn eu hwynebu yn rhai mawr iawn.

3.4 Roedd y rhan fwyaf o ardaloedd inni ymweld â nhw wedi mabwysiadu'r dull YISP a YIP o atal troseddu gan blant / pobl ifanc. Roedd gan y dull YIP ffocws daearyddol,

yn aml iawn ar un ystâd dai lle oedd ymchwil wedi dangos bod yno lefel uchel o droseddu gan bobl ifanc. Gallai'r YISP, fodd bynnag, fod ychydig yn ehangach, weithiau dros y bwrdeistref i gyd, ond fel arfer ar draws y dosbarth. Roedd yna dal rai rhannau o'r ardal awdurdod lleol lle na fyddai plentyn a oedd wedi'i adnabod i fod yn fwy tebygol o droseddu o reidrwydd yn elwa o dderbyn ymyriadau YISP. Mewn geiriau eraill, efallai fod plentyn wedi'i adnabod i fod yn fwy tebygol o droseddu ond bod yna brinder gwasanaeth i'w atgyfeirio i dderbyn cymorth.

3.5 Roedd plant yn cael eu hatgyfeirio o sawl lle; roedd 34% o'r achosion a archwiliwyd yn nodi bod y plant wedi cael eu hadnabod gan eu hysgol. Roedd hyn fel arfer, er nid bob tro, gan athro neu athrawes neu gan nyrs ysgol. Roedd yr heddlu wedi atgyfeirio 12% o'r achosion a edrychwyd arnynt; roedd rhieni plant wedi atgyfeirio 6%.

3.6 Mewn llawer o achosion, roedd yr atgyfeirio at waith atal wedi dod drwy'r CAF, ac yn yr achosion hyn, ffynhonnell y CAF a ddefnyddiwyd i bennu'r ffigur hwn. Fodd bynnag, efallai mai nid y ffynhonnell CAF oedd y ffynhonnell wreiddiol. Er enghraifft, os oedd plismon wedi adnabod plentyn a oedd yn fwy tebygol o droseddu, gallai ef neu hi fod wedi tynnu sylw trydydd parti at hyn - yr ysgol neu YISP lleol er enghraifft. Gallai'r plismon fod wedi gwneud hyn yn llafar, drwy neges e-bost neu drwy lenwi ffurflen cyn-CAF. Gallai'r ail ffynhonnell hon fod wedi llenwi'r CAF ar ran y plismon hwnnw heb sôn am rôl y plismon. Mae'n debygol bod yr enghraifft hon yn eithaf nodweddiadol ac, felly, dylid darllen y tabl isod yn bur wyliadwrus.

| **Ffynhonnell** | **nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ysgol | 26 | 34.6 |
| Heddlu | 9 | 12 |
| Rhiant | 6 | 8 |
| Gweithiwr YISP (y brawd neu'r chwaer) | 4 | 5.3 |
| Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd | 4 | 5.3 |
| Canolfan Blant | 3 | 4 |
| Gofal Cymdeithasol | 3 | 4 |
| CAMHS | 2 | 2.6 |
| Opsiwn Cymunedol | 2 | 2.6 |
| Eraill (h.y. dim ond 1) neu anhysbys | 16 | 20 |

3.7 Roedd yn glir o gyfweliadau gyda phlismyn a phlismyn cymunedol bod llawer ohonynt yn rhagweithiol wrth adnabod 'plant a oedd yn fwy tebygol o droseddu'. Yn ein barn ni, ar lefel genedlaethol, mae canran y plant a atgyfeiriwyd at waith atal gan yr heddlu yn debygol o fod yn llawer uwch na'r 12% yn y sampl.

3.8 Roedd plismona cymdogaeth yn weladwy ym mhob un o'r ardaloedd inni ymweld â nhw. Roedd yn glir iawn bod y timau hyn wedi meithrin cysylltiadau rhagorol gydag ysgolion a mudiadau ieuenctid yn eu hardaloedd ac yn ymrwymedig iawn i waith atal. Roedd y plismyn a'r plismyn cymunedol a oedd yn gweithio yn yr ysgol wedi datblygu cysylltiadau sylweddol gyda'r plant a'u teuluoedd ac yn gallu adnabod, atgyfeirio a gweithio gyda phlant sydd efallai'n fwy tebygol o droseddu.

**Yn Hartlepool, roedd dull o'r enw 'bwrdd ym mhob ysgol' yn sicrhau bod plismyn a phlismyn cymunedol yn cael eu croesawu ac yn cael eu gweld yn aml ac ar gael ym mhob ysgol yn y bwrdeistref.**

3.9 Nid yw'n syndod mai'r ysgol yw'r llwybr mwyaf cyffredin o atgyfeirio, ond efallai fod y ffigurau'n awgrymu materion eraill, fel lefel y ddealltwriaeth o weithgareddau gwaith atal ymhlith asiantaethau partner a hefyd argaeledd a lefel y defnydd a wneir o hyfforddiant CAF. Roedd yna lefelau amrywiol o ddealltwriaeth ymhlith staff mewn asiantaethau partner o rôl a phwrpas y CAF.

3.10 Mae rhai plismyn yn cwblhau'r CAF, ond roedd eraill naill ai ddim yn meddwl mai eu rôl nhw oedd gwneud hynny neu'n ddryslyd ynghylch eu cyfrifoldebau ac ni wyddai rhai am y CAF o gwbl. Mae cylchlythyr Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu dyddiedig 12 Chwefror 2009 yn nodi ei safiad ei bod yn cefnogi defnyddio'r asesiad cyn-CAF (ffurflen asesu fer) gan blismyn ond nid y ffurflen CAF lawn. Mae'r Gymdeithas yn cynnig eithriad i hyn mewn achosion lle nad oes gan unrhyw asiantaeth bartner rôl neu lle gallai fod yn briodol i ymarferwr heddlu wneud hynny, yn enwedig mewn rôl ddynodedig gyda phlant neu bobl ifanc. Mae'r ymwybyddiaeth o'r canllawiau ymhlith plismyn yn fratiog. Y swyddogion o'r Partneriaethau Ysgolion Diogelwch, y Timau Plismona Cymdogaeth a'r unedau cam-drin plant sydd â'r wybodaeth orau am y plant a'r teuluoedd hynny sydd fwyaf tebygol o droseddu. Fel rheol nid yw'r swyddogion hyn yn llenwi ffurflenni CAF, ond mae ganddynt drefniadau i atgyfeirio at asiantaethau eraill lle mae'r CAF yn cael ei lenwi nes ymlaen, os oes angen.

3.11 Y cam nesaf yn y broses CAF yw adnabod 'gweithiwr proffesiynol arweiniol'. Ni welsom unrhyw enghreifftiau o blismyn yn cyflawni'r rôl hon, fodd bynnag, dywedodd o leiaf dau o'r plismyn inni eu cyfweld na fyddent yn gwrthwynebu gwneud hyn pe bai'r amgylchiadau yn rhai priodol. Dywedodd un Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant:

*"Dylai rôl y gweithiwr proffesiynol arweiniol gael ei chyflawni gan rywun sydd â'r wybodaeth orau am y plentyn a'r teulu ac sy'n dderbyniol i'r teulu dan sylw, os yw'r person hwnnw'n digwydd â bod yn blismon yna byddai hynny'n dderbyniol."*

3.12 Mae rôl y gweithiwr proffesiynol arweiniol yn un o gydgysylltu a gallai olygu bod y person yn gorfod rhoi ei ddyletswyddau craidd ef / hi i un ochr. Mae'r heddlu braidd yn gyndyn o gyflawni'r rôl hon. Efallai fod hyn yn ddealladwy, ond gallai gweithwyr eraill fel athrawon a staff iechyd hefyd ddefnyddio'r un rhesymau pam na ddylai plismon fod yn weithiwr proffesiynol arweiniol. Mae'n bwysig bod pawb sy'n proffesiynols rôl o'r fath, gan gynnwys llenwi'r ffurflen CAF, wedi derbyn yr hyfforddiant priodol i wneud hynny.

3.13 Roedd y rhesymau a roddwyd dros atgyfeirio at y gwasanaethau atal yn niferus ac amrywiol, er enghraifft: atyniad at dân, presenoldeb gwael yn yr ysgol,

ymddygiad ymosodol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, y rhieni'n cam-drin cyffuriau a brodyr / chwiorydd yn troseddu, i enwi dim ond rhai. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd 'dylanwad aflonyddol neu'n afreolus yn yr ysgol', gallai hyn hefyd gynnwys ymddygiad ymosodol tuag at blant eraill ac, mewn rhai achosion, tuag at staff yr ysgol. Mae hyn yn gymesur â'r ffaith bod y rhan fwyaf o atgyfeirio'n cael ei wneud gan ysgolion.

3.14 Mewn rhai ysgolion, mae'r mater weithiau wedi'i gymhlethu oherwydd bod nifer fawr o ymyriadau ar gael ond gwahanol lwybrau atgyfeirio – pob un gydag asesiad gwahanol ar y ffurflen atgyfeirio. Mae'n deg dweud fodd bynnag yn yr enghraifft hon, ac er bod rhywfaint o ddryswch, bod gan y rhan fwyaf o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'r ymyriadau oedd ar gael a hefyd o'r fethodoleg atgyfeirio, hynny yw nid oedd yn amlwg ar unwaith bod diffyg llenwi'r CAF wedi cael effaith negyddol ar y rhan yma o'r broses.

***<u>Asesu:</u>***

3.15 Dyfeisiwyd y CAF i fod yn offeryn cyd-asesu y gellir ei ddefnyddio gan yr holl wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant. Ei bwrpas yw helpu i adnabod angen yn fuan a hyrwyddo darparu gwasanaethau cydgysylltiedig. Lle mae pryder wedi'i godi, neu lle mae'r anghenion yn aneglur, mae'r CAF yn fodd o adnabod anghenion a / neu o gael gwasanaethau eraill i helpu i'w diwallu. Nid yw wedi'i ddyfeisio i ddisodli asesiadau arbenigol eraill. Nid oes angen llenwi ffurflen CAF lle mae'n amlwg beth yw anghenion y plentyn a lle gall yr asiantaeth asesu ddiwallu ystod llawn yr anghenion hynny. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i bob awdurdod lleol ddefnyddio'r CAF, neu ddangos rhesymau da dros beidio. Nid yw'r CAF wedi cael ei gyflwyno'n swyddogol yng Nghymru er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus mewn rhai ardaloedd.

3.16 Mae peth dryswch ymhlith ymarferwyr ynghylch egwyddorion y CAF, h.y. a ddylid ei ddefnyddio fel offeryn asesu neu offeryn atgyfeirio? Yn ymarferol, mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y ddau beth. Ar gyfer rhaglenni atal troseddu, o leiaf, mae'n ymddangos bod yna duedd iddo fod yn offeryn atgyfeirio'n unig, hynny yw efallai fod y person sy'n cwblhau'r CAF eisoes wedi penderfynu bod y plentyn yn addas ar gyfer YISP neu eisoes wedi trefnu atgyfeirio.

3.17 Cawsom ein plesio gyda pharodrwydd cyffredinol asiantaethau partner i rannu gwybodaeth briodol am atal troseddu gan bobl ifanc. Elfen hanfodol o'r rhannu gwybodaeth yma oedd bodolaeth cyfarfodydd achos aml-asiantaeth i drafod anghenion a chynnydd y plentyn. Roedd y cyfarfodydd hyn yn tueddu i gael eu cynnal mewn ardaloedd lle oedd ethos y CAF yn gryf, oherwydd roedd hyn yn golygu bod presenoldeb y staff proffesiynol perthnasol yn y cyfarfodydd hyn yn cael ei gymryd o ddifrif a bod eu cyfansoddiad yn adlewyrchu anghenion uniongyrchol y plentyn yn well. Ar y cyfan, roedd yna gysylltiadau cadarnhaol a llif gwybodaeth dda rhwng gwahanol sefydliadau, er bod gwybodaeth gan CAMHS i sefydliadau eraill weithiau'n cael ei ddisgrifio fel problematig, gyda rhai ar adegau'n gyndyn neu'n methu â mynychu cyfarfodydd aml-asiantaeth.

3.18 Ac eithrio nifer fach o achosion o gamddehongli Deddf Diogelu Data 1998 ar lefel leol, roedd y broses o drosglwyddo data rhwng asiantaethau yn ddiogel ac yn cael ei rannu'n fodlon. Roedd hyn wedi'i gynorthwyo gan y ffaith bod dulliau YISP yn wirfoddol a thrwy i'r teulu gytuno i'r data perthnasol gael ei rannu.

3.19 Bron ym mhob achos inni edrych arno, roedd asesiad Onset wedi’i gychwyn, er mai dim ond 71% oedd wedi eu cwblhau’n llawn a’u hadolygu. Roedd y rhan fwyaf o asesiadau’n tueddu i ganolbwyntio’n fwy trylwyr ar y ffactorau risg na’r ffactorau gwarchodol. Mewn rhai ardaloedd, roedd yr Onset yn dilyn ymlaen yn syth o’r CAF a ddefnyddiwyd fel y dull atgyfeirio, ac weithiau roedd y CAF yn cael ei lenwi gan yr un person a oedd nes ymlaen yn paratoi’r Onset. Roedd hyn yn awgrymu bod y CAF yn cael ei ddefnyddio’n syml fel proses atgyfeirio swyddogol, ac yn ôl rhai fel ffordd o sicrhau adnoddau gan asiantaethau eraill.

3.20 Ar y cyfan, roedd yr asesiadau Onset a oedd wedi eu cwblhau’n llawn o ansawdd da, ond roedd y defnydd o CAF yn anghyflawn a'r systemau i fonitro ei ddefnydd a'i effeithiolrwydd yn wahanol ym mhob ardal. Un eithriad i hyn oedd y defnydd a wnaed o'r Onset i gofnodi materion iechyd, lle mai pur anaml oeddent yn cael eu diweddaru yn dilyn ymyriadau iechyd.

3.21 Nid oedd cynlluniau yn Onset nac yn CAF yn ddigon manwl fel y gellid darparu ymyriadau yn effeithlon a thracio cynnydd. Mewn un ardal, nid oedd unrhyw gynlluniau ymyrryd Onset o gwbl.

3.22 Un o fanteision Onset yw ei fod wedi’i deilwrio’n arbennig i droseddwyr ifanc ac yn sbarduno asesiad yn defnyddio’r ffactorau risg a gwarchodol, gan arwain at sgôr rhifol ym mhob adran, yn ôl yr angen yn yr adran honno. Er enghraifft, os nad yw plentyn mewn addysg gellid rhoi sgôr uchel (ar raddfa rhwng 0-4), ond os yw plentyn yn gwneud yn dda yn yr ysgol a heb unrhyw broblemau, yna gallai’r asesiad fod yn sgôr isel neu’n 0. Gellir adolygu’r asesiad hwn wrth i amser fynd yn ei flaen ac ailsgorio nes ymlaen i benderfynu pa mor bell y daeth y plentyn, neu i adlewyrchu eu sefyllfa, h.y. a ydyw'r ymyriadau yn gwneud troseddu yn y dyfodol yn llai tebygol?

3.23 O ran asesiadau iechyd, roedd anghysondebau o ran y defnydd a oedd yn cael ei wneud o Onset a’r CAF gan y Tîm Troseddwyr Ifanc. Mewn un ardal, nid oedd yr Onset yn cael ei ddefnyddio mwyach ar gyfer pob achos atal, ar ôl i’r CAF ei ddisodli. O ganlyniad, roedd y staff yn dibynnu ar y CAF i ddarparu atgyfeiriadau iechyd priodol. Hyd yn oed yma, er gwaetha’r ffaith bod y canllawiau ar gyfer y CAF yn glir a chynhwysfawr gyda throthwyon priodol, roedd anghysondebau o ran y ffordd oedd gwahanol baneli CAF yn gweithio. O ganlyniad, roedd yn effeithio ar gysylltiadau gyda gweithwyr iechyd ac ar faint o atgyfeirio oedd yn digwydd. Mewn un ardal, er enghraifft, roedd nyrsys ysgol a gweithwyr CAMHS yn gyfarwydd gyda ac wedi llenwi nifer o ffurflenni CAF gan ddisgrifio'r system hon fel dull atgyfeirio dda a modd o sicrhau bod gwasanaethau priodol yn cael eu dyrannu'n ffurfiol ac ar gael i blentyn; tra byddai gweithwyr atal eraill ond yn cyflwyno CAF os oedd arnynt angen cael gafael ar wasanaethau nad oedd eisoes yn cyfrannu at ofal y plentyn.

3.24 Ac eithrio rhai, nid oedd y plant hynny oedd wedi eu hadnabod i fod yn fwy tebygol o droseddu, ac wedi cael eu hasesu, yn cael eu hasesu’n systematig ar gyfer anghenion iechyd; yn aml iawn roedd diffyg gwasanaeth iechyd rheng flaen, a bwlch yn aml yn narpariaeth y gwasanaethau CAMHS. Cafwyd hefyd lle nad oedd materion iechyd yn cael eu gweld i fod yn amlwg gysylltiedig ag ymddygiad troseddol eu bod yn ymddangos i gael eu diystyru. Er enghraifft bod yn ordew, hylendid dannedd, golwg wael, ayb, a allai arwain at fwlio neu gyrhaeddiad gwael a phresenoldeb gwael yn yr ysgol (y ddwy yn ffactorau risg nodedig).

3.25 Roedd gweithwyr yn y Timau Troseddwyr Ifanc yn aml wedi eu hyfforddi'n dda gan staff iechyd proffesiynol i asesu a darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau haenau is a gwasanaethau iechyd meddwl ac emosiynol, h.y. drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor priodol. Ond weithiau roedd gorddibynnu ar asesiadau iechyd cychwynnol gan staff anarbenigol heb wneud digon o waith archwilio, fel samplo gan arbenigwyr, i sicrhau cywirdeb.

3.26 Roedd cynnwys gweithwyr iechyd mewn asesiadau cychwynnol yn tueddu i fod drwy wahoddiad ac yn aml yn digwydd yn yr ail gam. Weithiau roedd prosesau'n methu â chydnabod a defnyddio'r ystod a'r amrediad llawn o brofiad proffesiynol staff iechyd i adnabod a chwrdd ag anghenion iechyd plant. Ar y cyfan, roedd gweithwyr camddefnyddio sylweddau a staff iechyd eraill yn gwneud ymdrech i hyfforddi gweithwyr y Timau Troseddwyr Ifanc i sicrhau bod achosion priodol yn cael eu hatgyfeirio, ond roedd rhai anghysondebau o hyd, yn enwedig o ystyried y gwahaniaethau rhwng y CAF, Onset ac offer asesu iechyd dilynol. Hyd yn oed lle oedd offer mwy trylwyr i asesu anghenion iechyd mewn gwaith atal, yn aml iawn nid oeddent yn cael eu cymhwyso'n unffurf na'n gyson. Mewn un ardal, er enghraifft, roedd y gweithiwr iechyd yn y Tîm Troseddwyr Ifanc a hyfforddwyd mewn CAMHS yn defnyddio offer asesu gwahanol i'r gweithiwr iechyd a hyfforddwyd mewn CAMHS ac a oedd wedi'i gysylltu i'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yn y Tîm Troseddwyr Ifanc. Byddai'n fanteisiol pe bai'r holl offer asesu a sgrinio iechyd mewn gwaith atal yn glir a chyson.

3.27 Gan amlaf, roedd hyfforddiant cynefino a pharhaus da ar lefel aml-asiantaeth, ynghyd ag asesiad cyffredinol o anghenion iechyd a oedd wedi helpu i sicrhau bod plant priodol yn cael eu hasesu ac yn derbyn ymyriadau addas. Ambell waith fodd bynnag, cawsom fod natur drylwyr asesiad yn fwy o adlewyrchiad o sgiliau gweddilliol, personoliaethau, proffesiynoldeb a diddordebau'r gweithwyr yn hytrach na'r hyfforddiant ffurfiol yr oeddent wedi'i gael. Er enghraifft, roedd un gweithiwr allweddol yn digwydd â bod yn nyrs gymwysedig. Mewn dwy ardal, roedd asesiadau iechyd holistig yn cael eu cyflawni, gan arbenigwyr, gyda'r plant i gyd yn dod i gysylltiad â'r Tîm Troseddwyr Ifanc ac eglurder y meini prawf a ddefnyddiwyd yn sail ar gyfer yr ymyriad.

3.28 O'r 75 o achosion inni edrych arnynt, roedd bron i draean wedi eu cofnodi i fod heb unrhyw anghenion iechyd amlwg ac, felly, heb gael eu hatgyfeirio ymlaen am asesiad pellach neu ymyriad. Roedd cwestiwn yma ynghylch pa mor gywir oedd yr asesiadau gwreiddiol a'r ffaith bod y Timau Troseddwyr Ifanc yn credu, er mwyn atgyfeirio unigolyn, bod angen iddynt ddangos yn glir y cysylltiad rhwng problem iechyd a'r ymddygiad dan sylw. Os yw anghenion iechyd yn cael eu hadnabod ond nid eu cysylltu i droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, dylid eu cofnodi yn yr adran berthnasol ond ni ddylent gyfrannu at sgorio'r adran honno. Roedd y rhan fwyaf o weddill y plant yn ymddangos i fod wedi cael eu hanghenion iechyd wedi eu hadnabod yn gywir o'r wybodaeth ar gael ac atgyfeirio priodol wedi'i wneud am asesiadau arbenigol pellach ac ymyriadau gan weithwyr iechyd.

3.29 Gyda bron i ugain y cant o'r rhai a oedd ag anghenion iechyd, ni chafodd yr anghenion hynny eu hadnabod yn gywir, neu roedd eu hanghenion wedi cael eu hadnabod ond ni chawsant eu hatgyfeirio ymlaen am ymyriadau arbenigol. Byddai hyn yn awgrymu nad oedd anghenion iechyd nifer sylweddol o blant yn cael eu diwallu fel rhan o'r gwaith atal o leihau ffactorau risg a gwella ffactorau gwarchodol. Roedd achosion na chafodd eu hatgyfeirio ymlaen yn cynnwys cofnod

o anabledd braich / coes ond dim atgyfeirio wedi'i wneud am asesiad o effaith hyn, lle oedd pryderon wedi eu codi ynghylch gordewdra ond dim camau wedi eu cymryd, lle na wnaed unrhyw beth pellach ynghylch cyffur ac asthma a lle na chafodd arwyddion o awtistiaeth eu hasesu ymhellach. Roedd yr anghenion iechyd a gawsant eu hadnabod a lle cymerwyd camau pellach yn ymwneud yn bennaf â materion iechyd meddwl, ond hefyd yn cynnwys epilepsi, ADHD, diffyg imwneiddio a hyd yn oed pryder a godwyd ynghylch taldra a phwysau plentyn.

3.30 Roedd rhai rhaglenni iechyd lleol da iawn wedi cael eu hadnabod. Roedd y rhain wedi esblygu i sicrhau bod y plant iawn yn cael eu targedu i dderbyn ymyriadau iechyd.

**Cafodd Gemma[5], merch 13 oed, ei chludo i'r uned Ddamweiniau ac Achosion Brys ar ôl bod yn yfed alcohol gyda ffrindiau. Roedd protocol eisoes wedi'i drefnu gyda'r uned lle oedd gwybodaeth am oryfed a chymryd cyffuriau'n cael ei phasio ymlaen at y nyrs ysgol, er mwyn cynnig ymyriad pellach i blentyn.**

**Yn Stoke, roedd gweithwyr camddefnyddio sylweddau wedi nodi gwahaniaethau yn y sylwedd oedd yn cael ei ddewis gan blentyn, wedi'i ddylanwadu gan oed a rhyw, a oedd yna wedi goleuo mewnbwn ynghylch ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol i ysgolion lleol.**

***<u>Diogelu – amddiffyn plant:</u>***

3.31 Tybiwyd bod materion diogelu yn berthnasol mewn 42 o'r achosion a edrychwyd arnynt. Mewn 81% o'r achosion hyn, roedd materion Diogelu wedi cael eu hadnabod a, lle oedd hynny'n briodol, wedi cael eu hatgyfeirio ymlaen.

3.32 Ambell waith, roedd gweithwyr allweddol wedi dweud, wedi meddwl y dylai achos fod wedi cael ei atgyfeirio am resymau Diogelu ond nad oedd hyn wedi digwydd. Gwelsom hyn fel maes lle oedd angen hyfforddiant pellach ynddo.

3.33 Roedd achosion lle oeddem yn teimlo y dylid bod wedi cofnodi'n gliriach y camau a gymerwyd gan y staff proffesiynol, yn enwedig lle oedd yn ymwneud â materion Diogelu posibl. Roedd yna hefyd ambell gwestiwn ynghylch y llif gwybodaeth i ac oddi wrth wahanol grwpiau, er enghraifft, lle oedd atgyfeirio'n cael ei wneud at gynadleddau achos a chyfarfodydd grwpiau craidd, nid oedd y gweithiwr bob amser yn gwybod am neu heb dderbyn adborth ynghylch y gweithredu gan y grwpiau hyn. Roedd hefyd un achos lle oedd gweithiwr allweddol wedi hysbysu'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol ynghylch mater amddiffyn plant, ond nid oedd unrhyw beth wedi'i wneud yn ei gylch i bob golwg. Gwnaethom dynnu'r mater hwn at sylw rheolwyr lleol er mwyn ymchwilio iddo ymhellach. Fodd bynnag, ni ddylai'r enghreifftiau hyn amharu ar y darganfyddiad cyffredinol bod y llif gwybodaeth yn dda.

3.34 Ar y cyfan, roedd y sylw i faterion Diogelu yn gadarnhaol. Mewn un achos, roedd y gweithiwr wedi parhau i weithio gyda'i gydweithwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol ar ôl atgyfeirio'r achos, ond roedd hyn yn eithriad am resymau adnoddau dealladwy. Mewn nifer o achosion, roedd gweithwyr wedi gweithio gyda'r teulu am beth amser ac, o ganlyniad, roeddent wedi gallu cydgysylltu atebion i'r materion Diogelu.

[5] Dalier sylw bod enwau adroddiadau wedi cael eu newid drwy gydol yr adroddiad

## *ARGYMHELLION*

*Dylai'r Adran Addysg a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sicrhau:*

- **bod y Fframwaith Asesu Cyffredin a'r asesiadau arbenigol ar gyfer plant sy'n debygol o droseddu yn cael eu hail-ddylunio fel y gellir eu defnyddio'n gyson ac effeithiol heb ddyblygu.**

*Dylai bob Awdurdod Lleol a'u partneriaid sicrhau:*

- **bod y Fframwaith Asesu Cyffredin, yr asesiadau arbenigol ar gyfer plant sy'n debygol o droseddu a'r llwybrau ymyrryd a ddewisir o ganlyniad yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.**
- **bod yr holl staff mewn rolau plentyn-ganolog yn deall ac adnabod ffactorau 'risg' a 'gwarchodol' troseddol ynghyd â materion amddiffyn plant cysylltiedig ac yn gallu cwblhau Fframwaith Asesu Cyffredin neu drefnu bod hyn yn cael ei wneud**
- **bod gwybodaeth gyfun o asesiadau Onset yn cael ei defnyddio'n gorfforaethol i oleuo'r gwaith o gynllunio, darparu a chomisiynu gwasanaethau.**

*Dylai darparwyr gofal iechyd a staff sy'n gweithio gyda phlant sicrhau:*

- **y medrant adnabod arwyddion o droseddu posibl yn y dyfodol, atgyfeirio'r achosion yn briodol, a chyfrannu at asesiadau, cynlluniau ymyrryd ac adolygiadau o blant sy'n debygol o droseddu.**

*Dylai Prif Gwnstabliaid sicrhau:*

- **bod plismyn a phlismyn cymunedol, sydd wedi eu hyfforddi'n briodol, yn cwblhau asesiadau'r Fframwaith Asesu Cyffredin ac yn chwarae rhan lawn yn y broses aml-asiantaethol.**

# 4. DARPARU

| **Maen Prawf Cyffredinol:** |
|---|
| Mae ymyriadau'n cael eu darparu i leihau'r tebygolrwydd bod plant a phobl ifanc yn troseddu. |
| ***Yr hyn oeddem yn disgwyl ei weld:*** |
| **-** Bod gweithwyr yn cynnal diddordeb y plentyn a'r rhieni / gofalwyr. |
| - Bod yr hyn sy'n cael ei ddarparu yn cwrdd ag anghenion a buddiannau'r gymuned a'r plentyn o ran atal troseddu a hybu iechyd a lles. |
| - Bod ymyriadau'n cael eu hadnabod a'u darparu sy'n hyrwyddo ffactorau gwarchodol ac yn lleihau ffactorau risg tra'n hybu cyfleoedd dysgu priodol. |
| - Bod yna gynllun clir yn ei le i gwblhau ymyriadau sy'n cwrdd ag anghenion unigol y plentyn. |
| - Bod ymyriadau yn cydnabod a hyrwyddo amrywiaeth. |

*'Y ffordd orau o gael effaith ar blentyn yw drwy gael effaith ar y teulu'*

Gweithiwr allweddol

4.1 Unwaith yr oedd asesiad wedi'i wneud a'r plentyn wedi cwrdd â throthwyon a gytunwyd arnynt yn lleol, roedd cychwyn ar raglen yn digwydd yn gymharol sydyn.

4.2 Roedd y rhan fwyaf o ymyriadau'n cael eu darparu drwy weithiwr allweddol a oedd ynghlwm wrth raglen YISP yn cael ei rhedeg o fewn ffiniau'r awdurdod lleol. Roedd rhai o'r rhaglenni YISP yn cael eu darparu ar draws yr awdurdod, tra bod eraill yn gyfyngedig i ardal lai. Roedd rhai rhannau o ardaloedd awdurdod lleol heb YISP na rhaglen ymyrryd arall. Efallai na fyddai plentyn yn byw y tu allan i ardal o'r fath yn gallu cael mynediad at raglenni ymyrryd. Yn yr amgylchiadau hyn, roedd y diffiniad o Gymorth Ieuenctid a Dargedir yn dargedu ar sail ddaearyddol yn bennaf. Fel y soniwyd yn flaenorol, roedd Gogledd Sir Efrog wedi dod dros y broblem hon drwy ddatblygu rhaglen o Gymorth Ieuenctid Integredig ar sail nifer o ganolfannau daearyddol, fel bod darpariaeth dros y sir gyfan.

4.3 Ar y cyfan, roeddem wedi ein plesio gydag ystod yr ymyriadau oedd ar gael a lefel uchel y cyswllt oedd gan yr ymarferwyr gyda'r plant. Roedd nifer o gynlluniau ymyrryd yn amlwg wedi eu teilwrio i anghenion y plentyn unigol yn dilyn yr asesiad Onset. Mewn 48 allan o 68 o achosion perthnasol (71%), roedd yr ymyriadau yn amlwg yn hyrwyddo ffactorau gwarchodol ac yn lleihau ffactorau risg.

4.4 Lle nad oedd hyn yn digwydd, roeddem yn teimlo bod yr opsiynau ar gyfer ymyriadau atal yn brin. O ganlyniad, roedd yn anodd iawn gweld pa fantais oedd y plentyn yn ei dderbyn o'r ymyriad, oherwydd nad oedd yn cyd-fynd â'r asesiad o angen. Gallai fod dau reswm am hyn, yn gyntaf diffyg adnoddau i brynu

ymyriadau priodol ac, yn ail, efallai diffyg dychymyg, impetws neu wybodaeth gan y gweithiwr allweddol.

4.5 Fodd bynnag, roedd yna nifer o enghreifftiau da o ymyriadau syml, pwrpasol ond effeithiol a oedd yn wedi gwneud gwahaniaeth i'r plentyn yn fuan iawn.

**Derbyniodd Lucy, merch 11 oed a oedd yn or-dew ac a allai ond gwisgo trowsus tracsiwt i'r ysgol gynradd, gymorth i golli pwysau a phrynwyd dillad newydd iddi.**

**Cafodd Becky, merch 10 oed a oedd heb gribo na golchi ei gwallt ers tro, fynd i salon trin gwallt; ar ôl cael torri ei gwallt, roedd ei hunan-ddelwedd, ei hyder a'i phresenoldeb yn yr ysgol wedi gwella.**

***Cynnal diddordeb:***

4.6 Yn wahanol i orchmynion llys, mae cyfrannu at waith atal troseddu gan bobl ifanc yn wirfoddol. Mae angen i'r gweithiwr allweddol ddefnyddio tipyn o sgiliau cymell i sicrhau bod y plentyn a'r rhiant / gofalwr yn cyfrannu at y rhaglen ac, yn bwysicach na hynny, yn parhau i gyfrannu.

4.7 Adroddwyd gan weithwyr allweddol fod y rhan fwyaf o rieni neu ofalwyr yn meddwl y byd o'u plant a bod llawer yn gweld y dull atal fel cyfle gwych i'w plant (a nhw eu hunain) dderbyn cymorth. Yn drist, yn ymarferol nid oedd hyn yn digwydd bob tro.

4.8 Roedd rhai rhieni'n gwrthod cymryd rhan yn y rhaglen neu, os oeddent, roedd eu cyfraniad prin yn weladwy. Rhoddwyd nifer o resymau am hyn, er enghraifft bod rhiant yn gyndyn o roi gwybodaeth bersonol neu o dderbyn ymweliadau yn y cartref oherwydd eu gweithgareddau troseddol eu hunain, eu bod yn goryfed neu'n cymryd cyffuriau, neu ddiffyg ymddiriedaeth yn yr awdurdodau yn gyffredinol. Gall agwedd o'r fath gan rieni effeithio ar gymhelliad plentyn i gymryd rhan, felly efallai ei fod yn tystio i ansawdd y gweithwyr allweddol bod 90% o'r plant hyn ar raglenni atal o'r fath yn parhau i gymryd rhan hyd nes i'r achos gael ei gau'n naturiol (neu o leiaf dros gyfnod ddigon hir i ryw fath o ymyriad gael ei ddirwyn i ben).

4.9 Gwelsom rai technegau cynnwys effeithiol ac ymrwymiad clir gan staff. Buom yn gweld nifer o raglenni YISP ac YIP ac yn siarad gydag amryw o weithwyr allweddol, plant a'u rhieni a chael ein bodloni gyda'r wybodaeth oedd gan y gweithwyr allweddol am y plant yr oeddent yn gweithio gyda nhw a'u bod yn barod i fynd 'y filltir ychwanegol' i geisio cynnal diddordeb a chymhelliad y plentyn. Roedd enghreifftiau o'r ymrwymiad hwn yn cynnwys codi a hebrwng plentyn i weithgareddau clybiau gyda'r nos, fel cybiau a sgowtiaid a chwaraeon lleol, a bod yn barod o hyd yn ystod oriau anghymdeithasol i drafod pryderon y plentyn neu'r rhiant (neu'r gofalwr). Mae ymrwymiad a gwaith achos da o'r fath yn gwbl greiddiol i raglen atal lwyddiannus ac felly roeddem yn falch iawn o weld bod digon ohono'n digwydd.

**Yn Stoke-on-Trent, cyfarfu'r YISP i ystyried anghenion Michael, bachgen 11 oed o gefndir difreintiedig iawn. Roedd ei dad yn y carchar am ddelio mewn cyffuriau, roedd ôl-ddyledion rhent sylweddol iawn, a oedd yn golygu y gallai'r teulu gael eu troi allan. Roedd ei fam yn cael trafferth darparu cymorth corfforol ac emosiynol ac roedd yn aml yn mynd i'r ysgol heb frecwast ac wedi gwisgo'n wael. O ganlyniad, roedd yn cael ei fwlio a oedd yna wedi arwain at chwarae triwant a bod yn fwy tebygol o droseddu. Aeth yr YSIP ati i roi pecyn cymorth da iawn at ei gilydd yn cynnwys nifer dda o asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r teulu. Roedd y pecyn hwn yn cynnwys bod y gweithiwr atal yn mynd â'r bachgen i'r ysgol bob bore a gwneud yn siŵr ei fod yn bwyta brecwast, yn cadw gwisg ysgol lân yn yr ysgol ac yn derbyn rhaglen gymorth gyda'i wersi. Aeth y swyddog tai ati i lunio cynllun i helpu i ddod o hyd i gartref arall i'r teulu a chynyddodd y plismon cymunedol ei gyswllt gyda'r teulu a'r cymdogion.**

4.10 O'r achosion a arolygwyd, roedd 75% (56 allan o 75) o rieni / gofalwyr wedi chwarae rhan weithredol yn yr asesiad cychwynnol o'u plant. Y cyfranogiad a oedd yn digwydd amlaf oedd llenwi'r adran *Over to you!* yn yr asesiad Onset, fel y gallai rhieni a gofalwyr leisio eu barn nhw am ba agweddau ar fywyd y plentyn oedd angen derbyn sylw drwy'r cynllun ymyrryd. Cyfranogiad cyffredin arall oedd mynychu cyfarfodydd panel y CAF yn rheolaidd, lle oedd cynnydd y plentyn yn cael ei drafod a'i fonitro. Y rheswm mwyaf cyffredin dros i riant beidio â chymryd rhan mewn panel CAF oedd gorfod gofalu am frodyr / chwiorydd yn y teulu. Cawsom ein synnu o beidio â gweld mwy o opsiynau'n cael eu cynnig gan awdurdodau lleol i geisio goresgyn y broblem hon.

4.11 Gwelsom enghreifftiau penodol o gynnal diddordeb y plant, yn enwedig lle oedd hyn yn digwydd mewn ysgolion, a defnydd effeithiol yn cael ei wneud o gysylltiadau sefydlog gyda nyrsys ysgol.

**Roedd gweithwyr iechyd yng Ngogledd Sir Efrog yn cyfarfod y plant y tu allan i'r Tîm Troseddwyr Ifanc, y tu allan i oriau swyddfa ac yn aml yng nghwmni'r teulu, a hefyd yn trefnu trafnidiaeth ar eu cyfer i leihau unrhyw rwystrau posibl i dderbyn gwasanaethau iechyd priodol. Roedd gan Enfield drefniadau tebyg.**

4.12 Yn aml, roedd angen dull pragmatig o gynnwys diddordeb lle oedd stigma ynghlwm wrth dderbyn gwasanaethau iechyd. Gwelsom hefyd enghreifftiau da o raglenni sgiliau magu plant a oedd yn cyd-fynd â'r gwaith oedd yn cael ei wneud gan y timau atal.

**Ym Mryste, roedd defnydd arloesol yn cael ei wneud o raddedigion seicoleg a oedd yn ennill profiad clinigol drwy roi cymorth dwys i rieni ac atgyfnerthu dulliau i'w helpu i ymdopi.**

***Hyrwyddo ffactorau gwarchodol a lleihau ffactorau risg:***

4.13 Er bod yr ymyriadau o ansawdd da ar y cyfan, roedd y rhain weithiau'n cael eu darparu dim ond am eu bod ar gael ac nid am eu bod o anghenraid yn gysylltiedig ag unrhyw ganlyniadau dymunol. Roedd y cynllunio rhyng-asiantaeth i weithredu ymyriadau hefyd yn dda mewn nifer o ardaloedd.

**Yng Ngogledd Sir Efrog, gwnaed defnydd da o brosiect teuluol arloesol a oedd yn gweithio gyda nifer fach o rieni a'u plant i geisio gwella ansawdd y cyfathrebu rhwng y teulu. Roedd un gweithiwr wedi trefnu dilyniant effeithiol o ymyriadau drwy sicrhau bod y plentyn wedi cwblhau gwaith ar ei hanghenion llythrennedd cyn ei chynnwys mewn dosbarth dawnsio trefol.**

**Yn Hartlepool, roedd ystod defnyddiol o ymyriadau wedi cael ei adnabod a'i ddarparu gan staff iechyd yn y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc, fel y dull o ddelio â throseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol (Straight-Line) ac iechyd rhywiol. Cafodd Straight-Line ei ddatblygu ar ôl casglu gwybodaeth am droseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae'r rhaglen wedi cael ei datblygu ymhellach drwy ei darparu mewn ysgolion.**

4.14 Cawsom ein plesio gyda chyfraniad y rhaglen FIP at waith atal, yn enwedig yn Stoke-on-Trent. Roedd trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn cael ei weld fel cyfnod risg arbennig i lawer o blant agored i niwed. Roedd gweithwyr ym mhob un o'r asiantaethau perthnasol yn gweithio'n ddychmygus ar strategaethau i helpu'r plant hyn i drosglwyddo'n llwyddiannus.

4.15 Er y gall ystod eang o ymyriadau yn aml fodoli i hybu iechyd da, er enghraifft drwy ddefnyddio technegau fel therapi ymddygiad gwybyddol, ymyriadau sy'n canolbwyntio ar atebion a gwaith systemig, gall rhwystrau godi i sicrhau ymyriadau a chyfraniad llwyddiannus - un enghraifft amlwg o hyn yw teithio mewn ardaloedd gwledig.

4.16 Mewn rhai sefyllfaoedd, nid oedd y canlyniadau iechyd wedi cael eu cofnodi'n ddigon da ar Onset (er hynny, roedd materion iechyd yn ymddangos i gael eu casglu'n fwy effeithiol drwy'r CAF). Roedd rhai o'r problemau a oedd yn ymwneud â sicrhau canlyniadau iechyd hefyd yn cynnwys diffyg mynediad at, neu amharodrwydd i gyfrannu at CAMHS, diffyg ymgynghori gyda rhai o'r gwasanaethau iechyd prif ffrwd eraill a'r ffaith syml bod plentyn wedi methu â rhoi'r gorau i ysmygu, er enghraifft, er gwaetha'r ymyriad. Gwelsom rai ymyriadau cadarnhaol a oedd wedi delio gyda rhai problemau'n codi o fod yn or-dew, gwlychu'r gwely a chymryd cyffuriau. Yn wir, lle oedd nyrs yn y Tîm Troseddwyr Ifanc yn gweithio gydag anghenion iechyd corfforol, gwelsom nifer o enghreifftiau o waith effeithiol.

**Roedd Tom, plentyn 12 oed gydag ADHD, yn bwyta gormod o lawer o siwgr a ddim yn cymryd ei feddyginiaeth. Roedd staff iechyd ac allweddol wedi gweithio gyda meddyg y plentyn i ddiwygio ei feddyginiaeth ac yna gyda'r ysgol i greu trefn i'w annog i'w chymryd. Ar ben hyn, roedd rhaglen 'bwyta'n iach' o ymwybyddiaeth addysgol wedi cael ei darparu a oedd yn mynd â fo i'r siopau i ddewis ffrwythau cyn eu troi yn ddiodydd ysgytffrwyth. Roedd gwybodaeth a chymorth yn cael eu rhoi i'w fam i wella ei ddiet ef a diet ei chwaer. Mae hyn wedi cael ei gynnal a chredwyd ei fod hefyd wedi cyfrannu at wella ymddygiad Tom.**

## ***Every Child Matters / Y Saith Nod Craidd ar gyfer Plant:***

4.17 Roedd pwysigrwydd y canllawiau polisi a'r fframwaith yng nghyswllt *Every Child Matters* (yn Lloegr) wedi'i danlinellu yn y gwaith dadansoddi achosion lle oedd bron pob un o'r ymyriadau a gyflawnwyd yn y sampl achosion yn gyson â'r fframwaith. Roedd cynnydd yn yr achosion wedi'i gysylltu'n benodol ag Aros yn Ddiogel, Mwynhau a Chyflawni ac un enghraifft o Fyw'n Iach. Roedd yr achosion yn yr ardal arolygu yng Nghymru yn unol yn fras â'r ddogfen gyfatebol ar gyfer Cymru – *Y Saith Nod Craidd ar gyfer Plant.*

4.18 Ar y cyfan, prin oedd y gweithgareddau cadarnhaol a oedd ar gael i blant iau (o dan 10 oed), plant gydag anableddau a rhai gydag anghenion arbennig.

## ***Cynlluniau Ymyrryd:***

4.19 Wrth asesu ffeiliau achos a siarad gyda'r gweithiwr allweddol, roeddem yn disgwyl gweld asesiad Onset prydlon o ansawdd da gyda chynllun clir yn cynnig atebion i'r problemau oedd wedi eu canfod i ddilyn. Roeddem yn disgwyl i hyn gael ei wneud mewn cydweithrediad â'r plentyn a'i rieni / gofalwyr ac, yn ddelfrydol, gydag eraill a oedd wedi bod yn gyfrifol am ddarparu'r ymyriadau, fel gweithwyr o gyrff statudol a gwirfoddol. Dylai'r adolygiad hwn edrych yn ôl ar sut oedd cynnydd wedi'i wneud a hefyd edrych ymlaen i weld sut i wella pethau yn y dyfodol. Felly, byddai'n cofnodi a oedd y mewnbwn yn llwyddiannus wrth geisio ateb y problemau; yn enwedig a oedd y ffactorau gwarchodol yn cynyddu a'r ffactorau risg yn lleihau.

4.20 Dylai'r rhan o'r adolygiad a oedd yn edrych ymlaen nodi a oedd angen newid yr ymyriadau, eu lleihau neu eu cynyddu yn ôl pa mor llwyddiannus oeddent hyd at y pwynt hwnnw. Mae hefyd yn arfer da gweld llwyddiant yn cael ei gydnabod a chanmoliaeth yn cael ei roi i'r plentyn a'i deulu, fel y medrant weld yn glir sut oedd pethau'n gwella iddynt. Wrth i'r cynllun ymyrryd gael ei gyflawni, rydym yn disgwyl gweld cynllun ymadael clir i amlinellu sut fydd anghenion y plentyn yn cael eu cwrdd gan y gwasanaethau cyffredinol pan fydd yr ymyriadau atal penodol wedi dod i ben.

4.21 Roedd ansawdd y cynlluniau ymyrryd yn amrywio'n eang, o ddim cynllun ysgrifenedig o gwbl i gynlluniau gydag amcanion a cherrig milltir clir. Roedd lleiafrif sylweddol ohonynt heb ddigon o fanylion, canlyniadau cerrig milltir na strategaeth ymadael. O ran ymyriadau iechyd, cafwyd fod yna ormod yn aml o ddibynnu ar atgyfeirio pellach at wasanaethau iechyd prif ffrwd, neu'n syml bod y gwaith yn cael ei barhau gan aelodau o'r tîm atal.

4.22 Gall cynlluniau gyda strwythur da sy’n cael eu hadolygu'n dda roi syniad o ba mor bell y mae rhywun wedi dod o ran lleihau'r ffactorau risg a chynyddu'r ffactorau gwarchodol (gweler Effaith) ac felly, heb y rhain, mae'n anodd deall sut y gall ymyriadau effeithiol gael eu cynnig a’u mesur. Yn ein barn ni mae hwn yn faes sydd angen ei wella’n sylweddol.

4.23 Cawsom wybod bod cynaliadwyedd rhai o’r gweithgareddau ymyrryd mewn sawl ardal yn fregus, gan fod llawer yn dibynnu ar gyllid tymor byr – ac felly roeddent bob amser mewn perygl o beidio â sicrhau cyllid pellach, o gael eu cau ar y diwedd ac o golli staff yn gynnar. Nid oedd hyn yn wir yn achos Gogledd Sir Efrog, lle oedd y rhan fwyaf o’r ymyriadau a oedd ar gael yn dod gan y gwasanaethau prif ffrwd. Fodd bynnag, yn yr enghraifft hon roedd yn ymddangos bod ystod yr ymyriadau addas a oedd ar gael yn fwy prin.

***Ffactorau amrywiaeth:***

4.24 Wrth asesu achosion, un agwedd y gwnaethom edrych arni oedd a oedd materion amrywiaeth, ffactorau gwahaniaethu posibl ac anghenion eraill gan yr unigolyn, yn cael eu hasesu a’u gweithredu’n briodol. Roedd ein hystyriaeth o amrywiaeth yn eang, gan gynnwys nid yn unig ffactorau fel hil / tarddiad ethnig, rhyw ac anabledd, ond hefyd materion eraill a allai effeithio ar allu’r plentyn i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sy'n bosibl drwy gymryd rhan. Er enghraifft, anawsterau dysgu neu blant yn symud o ardal gydag acen wahanol a allai effeithio ar sut fyddai'r plentyn hwnnw'n cael ei dderbyn gan ei gyfoedion. Cawsom fod dros ddwy ran o dair o’r achosion wedi ystyried y materion hyn yn foddhaol, o ran asesu'r problemau yn gyntaf ac yna o ran gweithredu i leihau eu heffaith.

**Roedd Sam, plentyn rhannol fyddar, wedi cael ei adnabod a threfniadau wedi cael eu gwneud i ystyried hyn mewn sesiynau grŵp ac mewn trefniadau un-i-un; drwy leoliad sedd a symudiadau llaw cefnogol, tra'n sicrhau fod pawb yn deall beth oedd yn digwydd. Gofynnwyd am gyngor ar yr achos hwn gan y cynghorwr iechyd a derbyniodd yr holl staff briffiau pellach.**

4.25 Gwnaethom ddadansoddi'r data ar y 75 o achosion inni eu harolygu i gadarnhau a oedd y canlyniadau i rai grwpiau plant yn wahanol i rai eraill. Roedd meintiau’r samplau’n fach, ond roedd yn bosibl nodi rhai tueddiadau. Er enghraifft, ar gyfer y plant gyda nam corfforol, problem iechyd meddwl neu emosiynol neu anabledd / anhawster dysgu, gwnaethom asesu fod staff yn llai gweithredu yn eu cysylltiad cychwynnol gyda'r rhieni / gofalwyr er, unwaith yr oeddent yn cymryd rhan, roedd yn haws cynnal eu diddordeb. Roedd mwy o gynlluniau a strategaethau ymadael wedi eu paratoi gyda’r grŵp hwn ond nid oedd yr ymyriadau’n hyrwyddo ffactorau gwarchodol a lleihau ffactorau risg i’r un graddau ag ar gyfer plant heb anableddau. Nid yw’n syndod felly bod eu hanghenion addysgol wedi cael eu nodi’n fwy cywir ac atgyfeirio priodol wedi’i wneud o ganlyniad.

**Roedd Toby, plentyn gyda phroblem llygaid a oedd yn effeithio’n ddifrifol ar ei hunan-ddelwedd a’i ymddygiad, wedi cael ei adnabod. Roedd y gweithiwr allweddol wedi bod mewn cysylltiad uniongyrchol â'r gwasanaethau cyffredinol i ddatrys y mater hwn - o ganlyniad roedd ymddygiad y plentyn wedi gwella'n aruthrol.**

4.26 Nid oedd yr un o’r plant a oedd o gefndir du a lleiafrifol ethnig wedi cael eu hadnabod i fod ag anabledd, ond roedd cyfran uwch (traean o’i gymharu â chwarter o blant gwyn) naill ai’n destun cynllun amddiffyn plant neu wedi bod yn destun ymholiadau o dan Adran 47 (Deddf Plant 1989). Fel arfer, roedd gan y plant a oedd yn destun cynllun amddiffyn plant neu ymholiadau Adran 47 weithiwr cymdeithasol penodol a oedd yn golygu bod staff atal yn chwarae llai o ran weithredol yn yr asesiad cychwynnol a chryn dipyn yn llai o asesiadau Onset yn cael eu cwblhau a'u hadolygu. Roedd llai o anghenion iechyd yn cael eu hadnabod ac yn derbyn sylw effeithiol, ac roedd cyfran uwch o faterion amrywiaeth eraill naill ai ddim yn cael eu hasesu neu nid oedd camau'n cael eu cymryd i leihau eu heffaith.

4.27 Ar gyfer y sampl ar y cyfan, unwaith oedd y materion amrywiaeth wedi cael eu hadnabod, roeddem yna'n edrych i weld a gawsant eu rheoli'n gywir. Yn ein barn ni, roedd tri chwarter yr achosion wedi gwneud hyn. Er enghraifft, roedd deunyddiau cyfathrebu wedi cael eu haddasu’n foddhaol i gyd-fynd â lefel ddealltwriaeth yr unigolyn neu ei lythrennedd. Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn glir a oedd y dull hwn wedi cael ei ehangu i gynnwys pawb a oedd yn gweithio gyda’r plentyn. Mewn geiriau eraill, a oedd unrhyw beth a oedd yn rhwystro'r plentyn rhag cyrraedd ei botensial wedi cael ei ddileu neu wedi derbyn sylw, o ran datblygiad y plentyn arbennig hwnnw neu unrhyw newidiadau i’w amgylchedd.

**Mae Enfield wedi cyflwyno ‘rhestr wirio ddiwylliannol’ ddefnyddiol o faterion amrywiaeth posibl i’w helpu i adnabod materion perthnasol.**

***<u>Anghenion addysgol:</u>***

4.28 Mewn 53 allan o’r 75 a arolygwyd, roedd anghenion addysgol yn glir o’r asesiad cychwynnol. O’r 53 achos yma, roedd 43 (81%) yn dangos tystiolaeth bod yr anghenion hyn wedi cael eu hadnabod yn gywir ac atgyfeirio priodol wedi digwydd. Nid oedd hyn yn syndod o ystyried bod llawer o'r atgyfeirio'n dod o ysgolion yn y lle cyntaf. Gyda rhai o’r achosion, gwelsom gysylltiadau agos rhwng y cynlluniau ymyrryd a chynlluniau i wella cyrhaeddiad addysgol. Roedd gan un ffeil achos inni edrych arni gopi o’r datganiad addysgol ynghlwm.

4.29 Ond mewn 10 achos, nid oedd unrhyw gysylltiad wedi’i wneud rhwng materion atal troseddu ac anghenion addysgol ychwanegol. Buom yn trafod achosion lle oedd nifer fach o blant yn cael eu haddysgu am ddim ond awr neu ddwy y dydd mewn uned atgyfeirio disgyblion. Fodd bynnag, oherwydd bod mwy o staff ar gyfer y disgyblion, roedd y rhan fwyaf o’r unedau atgyfeirio disgyblion inni ymweld â nhw yn gallu sicrhau bod y plant yn dysgu ystod eang o bynciau a oedd yn cymharu’n rhesymol ag ysgolion prif ffrwd. Mewn achos arall, er nad oedd anghenion addysgol penodol wedi cael eu hasesu fel bo angen, roedd y plentyn wedi cael ei dynnu allan o ddosbarthiadau i fynychu sesiynau grŵp ar ymddygiad troseddol; roedd hyn yn golygu colli gwersi arferol ac achosi iddo / iddi efallai golli mwy fyth o dir o’i gymharu â gweddill y dosbarth. Mae addysg a dysgu'n ffactorau gwarchodol hollbwysig a byddem wedi hoffi archwilio'r materion hyn yn fwy manwl, ond heb y mewnbwn arbenigol gan arolygwyr Ofsted neu Estyn, nid oeddem wedi gallu gwneud hyn.

***ARGYMHELLIAD***

***Dylai bob rheolwr atal a gweithiwr allweddol sicrhau:***

- **bod gan bob plentyn sy'n dilyn ymyriad atal troseddu gynllun ymyrryd Onset cyfredol sy’n ddigon manwl, sydd ag amserlen, sy’n adlewyrchu asesiad y plentyn, sy’n cael ei adolygu’n gyson, sydd â mesurau canlyniad clir a strategaeth ymadael.**

# 5. EFFAITH

**Maen Prawf Cyffredinol:**

Mae ymyriadau i leihau'r tebygolrwydd o droseddu ymhlith plant a phobl ifanc wedi cael effaith gadarnhaol.

***Yr hyn oeddem yn disgwyl ei weld:***

- Mae gwerthuso wedi digwydd i benderfynu a fu'r dulliau'n llwyddiannus neu beidio.
- Mae data ar sail unigolion ac ar sail crynswth wedi cael ei gasglu ar ymyriadau gyda phlant sy'n debygol o droseddu, er mwyn gwerthuso ymarfer.

*'Pe na bai'r rhaglen YIP ar gael yn… … byddai'r lle'n mynd â'i ben iddo, byddai'r plant yn mynd i helynt ac nid wyf i eisiau gweld hynny'n digwydd. Mae yna hefyd lai o droseddu a rwyf yn teimlo'n fwy diogel yn fy fflat.'*

Rhiant i blentyn ar raglen YIP

5.1 Nod y gwaith atal sylweddol sy'n cael ei wneud, fel canlyniad yn y pen draw, yw lleihau troseddu gan bobl ifanc neu o leiaf lleihau'r tebygolrwydd o droseddu. Ar y cyfan, roedd yr arolygiad yn ystyried bod y nodau canlyniad hyn yn anodd, os nad yn amhosibl, i'w hasesu.

5.2 Fel inni ddweud yn gynharach, roedd ansawdd nifer o'r cynlluniau ymyrryd, yn enwedig o ran mesurau canlyniad, yn wael. Mewn mwy na hanner yr achosion, nid oedd unrhyw gynllun clir gyda strategaeth ymadael, ac nid oedd gan rai gynllun o gwbl. O ganlyniad, roedd yn anodd i weithwyr allweddol ddangos tystiolaeth o beth oedd llwyddiant yn edrych fel.

5.3 Ond beth mae llwyddiant *yn* edrych fel? Roedd yr holl staff allweddol yn deall y ffactorau risg a gwarchodol a hefyd yn deall y gallai mesurau canlyniad interim, fel presenoldeb gwell yn yr ysgol (ffactor risg) a datblygu perthynas well gyda chyfoedion (ffactor warchodol) gyfrannu at leihau'r tebygolrwydd o droseddu yn y dyfodol, ond pur anaml y gwelsom dystiolaeth o hyn.

5.4 Gwelsom fawr ddim tystiolaeth o gasglu cynnydd er mwyn deall yn well pa mor llwyddiannus oedd ymyriadau wedi bod. Roedd peth symud ar hyn ym Mryste, lle oedd yr awdurdod lleol yn datblygu methodoleg 'cynnydd' ar gyfer y CAF, gyda'r bwriad iddo ddod yn rhan o'r system eCAF a oedd yn cael ei chyd-redeg gyda phartneriaid.

5.5 Mae gan Onset eisoes y modd hwn i fesur 'cynnydd', a rhoddir mynediad ato drwy adolygiadau ac ail-sgorio rheolaidd. Fodd bynnag, mae adolygiad o asesiad o'r fath yn dibynnu'n llwyr ar y dystiolaeth ynddo. Gan fod y cynnydd a ddangoswyd mewn nifer o gynlluniau ymyrryd yn brin o fanylion, roedd yn anodd adnabod a gwneud unrhyw sylw hawdd ar y newidiadau yn y ffactorau risg a gwarchodol. Roedd hyn, ynghyd â diffyg mesurau canlyniad yn gyffredinol, yn ei gwneud yn anodd iawn penderfynu pa mor effeithiol oedd ymyriadau wedi bod i nifer o blant. O'r achosion yr edrychwyd arnynt, roeddent yn rhanedig o ran a oedd unrhyw dystiolaeth o leihad yn y tebygolrwydd o droseddu neu beidio. Ychydig iawn o gynlluniau, os o gwbl, oedd â strategaeth ymadael bendant, er mewn un ardal (Enfield) lle bynnag yr oedd hynny'n bosibl roedd pob plentyn yn cael ei atgyfeirio at fentor ar ddiwedd yr ymyriad.

5.6 Nid oedd unrhyw dystiolaeth o werthuso achosion 'wedi eu cau' felly nid oedd yn bosibl cadarnhau llwyddiant tymor hirach y gwaith atal. Mewn ychydig iawn o achosion, roedd y plentyn wedi mynd ymlaen i droseddu (neu i aildroseddu) pan oedd yr achos dal 'ar agor'.

5.7 Ac eithrio Enfield, ychydig iawn o waith oedd yn ymddangos i fod wedi'i wneud i werthuso llwyddiant tymor hirach y gwaith atal. Yn ddiweddar, roedd Enfield wedi dechrau gwaith ymchwil i dracio plant a oedd wedi derbyn ymyriadau YISP yn y blynyddoedd blaenorol, i gadarnhau a oeddent wedi mynd i'r system cyfiawnder troseddol ac, os do, pryd ac am ba fath o drosedd. Bydd canlyniad yr ymchwil yma'n cynnig peth data ar effaith y gwaith atal.

5.8 Ar draws yr holl ardaloedd inni ymweld â nhw, roeddem wedi siarad â nifer o blant a'u rhieni i ganfod eu barn am y gwaith a oedd wedi'i wneud. Yn ddieithriad, roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol. Roedd rhieni a gofalwyr yn enwedig yn llawn canmoliaeth i'r gweithwyr allweddol gan sôn am enghreifftiau o ymroddiad a gofal a ddangoswyd, eu bod wedi cyflwyno eu plentyn i brofiadau a ffrindiau newydd, wedi helpu eu plentyn i reoli eu hymddygiad, wedi trefnu cyrsiau magu plant, ayb. Yn anad dim, dywedodd llawer ohonynt eu bod yn credu y byddai eu plentyn wedi mynd i drwbl oni bai am y gwaith atal.

5.9 Mae'r pethau sy'n arwain pobl ifanc i droseddu yn hynod gymhleth ac yn sicr yn fwy na'r agwedd yn unig a ddangosir gan yr unigolyn. Yng ngeiriau un ymarferwr *'Y ffordd orau o gael effaith ar y plentyn yw drwy gael effaith ar y teulu'.* Mae'r achosion a edrychwyd arnynt yn cefnogi hyn. Dangosodd nifer o achosion gysylltiad rhwng ymddygiad y plentyn a ffactorau dylanwadu fel troseddu gan frawd neu chwaer, sgiliau magu plant gwael, y rhieni'n goryfed alcohol neu'n cymryd cyffuriau, salwch meddwl ac yn y blaen.

5.10 Roedd gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd inni ymweld â nhw raglen FIP, dull dwys iawn sydd, am resymau adnoddau, ond yn gallu cael effaith ar ychydig iawn o deuluoedd mewn ardal awdurdod lleol. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan weithwyr allweddol yn awgrymu naill ai bod troseddu / aildroseddu gan aelodau o'r teulu a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglenni FIP hyn heb ddigwydd neu wedi lleihau'n sylweddol, h.y. canlyniad da iawn.

5.11 Yn ogystal, ychydig iawn o werthuso ymarfer ar y cyfan a welsom, yn enwedig o'r llu ymyriadau unigol a oedd wedi bod yn rhedeg mewn rhai ardaloedd ers blynyddoedd lawer.

5.12 Ar hyn o bryd, mae'r prif ddangosydd canlyniad ar gyfer gwaith atal llwyddiannus yn cael ei fesur gan y Dangosydd Cenedlaethol (Lloegr) 111 (NI 111) a chan Ddangosydd Cyfiawnder Ieuenctid 1 yng Nghymru (WYJI 1) - Newydd Ddyfodiaid i'r system cyfiawnder troseddol. Y diffiniad o Newydd Ddyfodiad yw plentyn neu berson ifanc sydd wedi derbyn cerydd (math o rybudd) gan yr heddlu o leiaf. Fel rheol gwelir hyn fel yr haen gyntaf o sancsiwn cyfiawnder troseddol ffurfiol sy'n cael ei neilltuo ar gyfer troseddau llai.

5.13 Er y gall y dangosyddion hyn fod yn ddefnyddiol, nid ydynt yn adlewyrchu gwir sefyllfa troseddu ymhlith pobl ifanc. Gall NI 111 a WYJI 1 gael eu dylanwadu gan bolisi a gweithgareddau'r heddlu a / neu gan ddulliau newydd o ddelio gyda throseddwyr. Er enghraifft, yn y blynyddoedd diwethaf mae'r heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn drylwyr yn eu dehongliad o'r Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol, system sydd, ynghyd â'r rhaglen a'r targedau o gynyddu nifer y Troseddau a Ddygwyd Gerbron y Llys, wedi rhoi nifer o blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol. Cyn hyn, efallai y byddai'r plismon wedi defnyddio

ei ddisgresiwn ef neu hi gan ddelio gyda'r mater yn anffurfiol. Mae hyn yn enghraifft dda o dargedau anghyson rhwng y Tîm Troseddwyr Ifanc (lle mae'r heddlu'n bartneriaid) sy'n ceisio lleihau nifer y Newydd Ddyfodiaid yn y system cyfiawnder troseddol, a'r heddlu sy'n ceisio cwrdd â thargedau o dan y broses Troseddau a Ddygwyd Gerbron y Llys.

5.14 Mae'r sefyllfa yma'n newid. Mae rhai heddluoedd wedi cyflwyno math o gyfiawnder adferol a elwir yn Fodd Adfer Ieuenctid (YRD). Mae'r YRD wedi'i anelu at rai sy'n cyflawni troseddau llai, gyda'r nod o gynnig ateb terfynol mwy adferol i'r mater, sy'n dderbyniol i'r dioddefwr a hefyd, gobeithio, i'r troseddwr. Defnyddir Rhybuddion Cosb Benodedig hefyd, er yn bennaf ar gyfer troseddau llai gan oedolion. Mae ceryddon (a'r sancsiwn lefel nesaf, Rhybudd Terfynol) yn cael eu cofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC).

5.15 Er nad yw rhybudd yn euogfarn (ac felly nid oes ganddo gyfnod o adsefydlu o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974[6]) ac nid oes raid ei ddatgan ar ffurflenni cais am swyddi, bydd dal yn cael ei ddangos ar y Datgeliad Cofnodion Troseddol. Mae rhai Rhybuddion Cosb Benodedig, fel rhai am anrhefn, mân ddifrod troseddol a dwyn, yn cael eu cofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, ond ni chofnodir moddion cyfiawnder adferol oni bai fod yr unigolyn yn cael ei ddwyn i'r ddalfa. Ni fydd Rhybudd Cosb Benodedig na Modd Adfer Ieuenctid o'r fath yn cael eu datgelu mewn archwiliad cofnodion troseddol. Oherwydd bod nifer o blant a phobl ifanc wedi cael eu categoreiddio fel achosion 'cyn-geryddu', a dyma beth yw'r rhan fwyaf o Foddion Adfer Ieuenctid mewn gwirionedd, nid yw Modd Adfer Ieuenctid na Rhybudd Cosb Benodedig yn cyfrif tuag at y NI 111 neu'r WYJI 1.

5.16 Nid yw felly'n syndod darganfod, mewn ardaloedd sydd eisoes wedi cyflwyno'r Moddion Adfer Ieuenctid, bod nifer y Newydd Ddyfodiaid, fel a fesurir gan y NI 111 neu'r WYJI 1, wedi lleihau ac yn sylweddol felly mewn rhai achosion. Er bod hyn efallai'n cael ei gyfrif fel mesur cywir o Newydd Ddyfodiaid i'r system cyfiawnder troseddol ffurfiol (yn ôl y nifer sy'n derbyn ceryddon, rhybuddion terfynol ac euogfarnau), os gallai *unrhyw* ymyriad cyfiawnder troseddol gael ei ystyried i fod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol yna mae'n anodd gweld pam nad yw Rhybuddion Cosb Benodedig a Moddion Adfer Ieuenctid hefyd yn cael eu cynnwys yn y broses, neu o leiaf eu hystyried ochr yn ochr â'r dangosyddion cenedlaethol.

5.17 Mae'n dilyn felly bod ffigurau'r NI 111 a'r WYJI, ar eu pen eu hunain ac yn ôl eu diffiniad presennol, yn annibynadwy ar gyfer mesur llwyddiant gwaith atal, neu yn benodol, ar gyfer cymharu gwahanol ardaloedd neu'r un ardal dros gyfnod o amser. Er bod yna dystiolaeth gychwynnol efallai bod Moddion Adfer Ieuenctid yn lleihau yn ogystal â Newydd Ddyfodiaid, yn ein barn ni er mwyn asesu a ydyw troseddu gan bobl ifanc yn lleihau, mae angen edrych ar y data ar yr holl sancsiynau (p'un ai y cofnodir hwynt yn genedlaethol neu beidio) ochr yn ochr â hyn.

5.18 Gwelsom beth gwerthuso o effaith ymyriadau iechyd, gydag ystod eang o offer ar gael i wneud hyn, er nad oedd y gwerthusiad wedi'i gysylltu'n aml i'r data a oedd yn cael ei gasglu gan y Tîm Troseddwyr Ifanc. Roedd yr offer a ddefnyddiwyd yn lleol gan y gwasanaethau iechyd yn amrywio o broffiliau risg drwy holiaduron cryfderau a thrafferthion, i ffurflenni TOPs (Proffil Canlyniad y Driniaeth) ar gyfer camddefnyddio sylweddau sy'n cael eu casglu gan yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Triniaethau, ond sydd fel rheol ond yn cael eu defnyddio ar gyfer rhai hŷn,

[6] Gweler y Rhestr Termau am fwy o fanylion

ond sydd hefyd yn cynnwys gwerthusiadau ac arolygon pellach. Roedd adolygiadau o achosion goruchwyliaeth hefyd yn helpu i ddangos effaith ymyriadau unigol. Roedd yn cael ei gydnabod bod yna drafferthion gydag egluro'r meini prawf llwyddiant yn foddhaol yng nghyswllt iechyd lle, er enghraifft, roedd plentyn a oedd yn camddefnyddio sylweddau yn deall y risgiau'n well neu'n defnyddio sylweddau'n fwy diogel heb leihau ei ddefnydd ohonynt. Roedd yna rai enghreifftiau da o weithwyr iechyd yn defnyddio taflenni gwerthuso gyda phlant i rannu'r broses o nodi cynnydd.

5.19 Ychydig o dystiolaeth a welsom o fonitro perfformiad yn ffurfiol ar lefel strategol ar ddarparu gwasanaethau iechyd ar atal troseddu. Er bod adroddiadau'n cael eu darparu gan weithwyr iechyd i fyrddau rheoli'r Timau Troseddwyr Ifanc, roedd y rhain yn aml wedi eu cyfyngu i'r nifer oedd wedi eu gweld, pa mor gyflym yr atgyfeiriwyd yr achosion ac i lefel y cyfranogi. Er enghraifft, roedd gan Derby adroddiad misol ar waith camddefnyddio sylweddau a oedd yn cael ei roi i Bennaeth Gwasanaeth y Tîm Troseddwyr Ifanc a hefyd i'r Tîm Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol. Roedd hyn yn tynnu sylw at faterion penodol fel natur yr ymyriadau gyda gwahanol grwpiau ethnig a bod angen cael cyfieithwyr penodol. Yn Stoke, roedd adroddiadau iechyd chwarterol ac adolygiadau o waith a wnaed, roedd y nyrsys CAMHS hefyd yn cyfrannu at oruchwyliaeth glinigol ac yn cyfnewid gwybodaeth gyda'r nyrsys CAMHS a oedd yn gweithio yng Ngwasanaeth Troseddwyr Ifanc Staffordshire. Roedd y gweithwyr camddefnyddio sylweddau hefyd yn paratoi adroddiadau chwarterol ar gyfer Rheolwr y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc ac yn monitro atgyfeirio. Mae hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am faint sydd ag anghenion camddefnyddio sylweddau ond nid am lwyddiant neu fethiant yr ymyriadau.

***Hyd y cyswllt:***

5.20 Gwnaethom gofnodi hyd y cyswllt a oedd wedi digwydd yn yr achosion a aseswyd gennym. Roedd gan rai ardaloedd ddisgwyliadau o ran faint fyddai cyfnod cyswllt yn para ar y mwyaf, fel blwyddyn academaidd, roedd eraill yn derbyn y byddai achosion yn cael eu cau ac yna'n cael eu hailagor pe bai anghenion pellach yn codi.

5.21 Roedd cyfran o'r achosion a aseswyd yn dal i fod ar agor, ond roedd hyn yn rhoi ciplun mewn amser inni. Roedd y rhan fwyaf, ychydig dros draean, ar agor am rhwng 9-12 mis, tra oedd 20% ar agor am fwy na blwyddyn a chyfran debyg am rhwng 6-9 mis. Roedd y chwarter a oedd yn weddill wedi bod mewn cysylltiad am lai na 6 mis. Roedd hyn yn rhoi peth syniad o'r amser yr oedd yn ei gymryd i atgyfeirio, cael y plant i gymryd rhan ac i gwblhau'r gwaith gyda phlant a oedd yn debygol o droseddu.

### *ARGYMHELLION*

***Dylai bob Awdurdod Lleol a'u partneriaid sicrhau:***

- **bod effaith gwaith atal troseddau ieuenctid lleol yn cael ei werthuso'n briodol a'r ymarfer yn cael ei addasu yng ngoleuni hynny.**

***Dylai'r adrannau perthnasol o'r Llywodraeth yng Nghymru a Lloegr sicrhau:***

- **bod y defnydd a wneir o Ddangosydd Cenedlaethol 111 a Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid 1 yng Nghymru, sy'n mesur Newydd Ddyfodiaid yn y system cyfiawnder troseddol, yn cael ei adolygu.**

## Atodiad 1: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| ACPO | Association of Chief Police Officers neu Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu |
| ADHD | Attention-deficit-hyperactivity disorder neu Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd. Anhwylder seiciatrig mewn plant. |
| BME | Black and Minority Ethnic / Pobl neu Grwpiau Du a Lleiafrifol Ethnig |
| CAF | Y Common Assessment Framework neu'r Fframwaith Asesu Cyffredin: asesiad safonol o anghenion plentyn neu berson ifanc a sut y gellir diwallu'r anghenion hynny. Gall unrhyw ymarferwr hyfforddedig ei ddefnyddio a gall pawb arall sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw gyfrannu ato. Dalier sylw: Dim ond ar gyfer Lloegr y mae hwn ond gall, ac mae eisoes, yn cael ei ddefnyddio mewn rhai rhannau o Gymru. |
| CAMHS | Child and Adolescent Mental Health Services neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, yn darparu gwasanaethau arbenigol ar iechyd meddwl ac ymddygiad i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed o leiaf. |
| CDRP | Y Bartneriaeth Gostwng Troseddau ac Anrhefn – yn Lloegr bydd hon yn dod yn Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol o 2010 ymlaen. Mae eisoes yn cael ei galw'n hyn yng Nghymru. |
| Children's Board / Y Bwrdd Plant | Grŵp partneriaeth sy'n cynnwys cyrff statudol ac anstatudol sy'n hybu'r agenda *Every Child Matters* (yn Lloegr). |
| Cynllun / Cofrestr Amddiffyn Plant | Mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd i amddiffyn plant rhag cael niwed sylweddol. Hyd at fis Ebrill 2008, roedd gan bob awdurdod lleol gofrestr amddiffyn plant, rhestr gyfrinachol o enwau plant y credir eu bod mewn perygl o gael niwed sylweddol. Gallai hyn fod yn niwed corfforol, emosiynol neu rywiol neu'n esgeulustod. Roedd y gofrestr yn cael ei chadw yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gofrestr hon wedi cael ei disodli gan y cynllun amddiffyn plant gan bwysleisio natur ragweithiol gwasanaethau plant. Os yw plentyn ar gynllun o'r fath yn symud allan o'r ardal, mae'r wybodaeth yn cael ei phasio ymlaen at yr awdurdod lleol yn yr ardal newydd. |
| Deddf Plant 1989 – Adran 47 | O dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud ymholiadau i amgylchiadau plant y credir eu bod mewn perygl o gael 'niwed sylweddol' a, lle mae'r ymholiadau hyn yn awgrymu bod angen, yn cyflawni ymchwiliad llawn i amgylchiadau'r plentyn. |
| Domain / Maes | Term i egluro grwpiau o faterion lle gellir adnabod a rhoi sylw i ffactorau risg a gwarchodol. |
| Estyn | Arolygiaeth EM ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. |
| *Every Child Matters* | Is-deitl o Ddeddf Plant 2004 |
| FIP | Prosiect Ymyriadau Teuluol – Prif nod y prosiectau ymyriadau teuluol yw atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu gan deuluoedd a gwneud eu cartrefi, a'r gymuned ehangach, yn ddiogel unwaith eto. Mae'r prosiectau hyn hefyd yn rhoi sylw i'r pethau sy'n achosi ymddygiad gwael fel goryfed alcohol a chymryd cyffuriau, iechyd gwael, trais yn y cartref, diweithdra a dyledion. O ganlyniad, mae'r prosiectau hyn hefyd yn darparu amcanion eraill fel atal digartrefedd, helpu teuluoedd i gadw eu tenantiaethau a helpu i gyflawni'r pum canlyniad ar gyfer plant a phobl ifanc yn *Every Child Matters* (yn Lloegr) |
| Newydd Ddyfodiaid | Diffinnir y rhain fel pobl ifanc (rhwng 10-17 oed) sy'n derbyn eu canlyniad gwirioneddol cyntaf ar ôl cyflawni troseddu (cerydd, rhybudd terfynol neu ddedfryd gan y llys i rai sy'n mynd yn syth i'r llys heb gerydd neu rybudd terfynol). |
| FPN | Fixed Penalty Notice neu Rybudd Cosb Benodedig a ddefnyddir yn bennaf am droseddau lefel isel gan oedolion, ond ar gyfer rhai troseddau gan bobl ifanc hefyd. |

| | |
|---|---|
| HM / EM | Ei Mawrhydi. |
| HMIC | Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf EM |
| Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol | Cafodd y safonau hyn eu mabwysiadu gan bob heddlu yng Nghymru a Lloegr yn Ebrill 2002 mewn ymgais i wneud y gwaith o gofnodi troseddau gan yr heddlu'n fwy cyson ac i adlewyrchu'r galwadau a wneir ar yr heddlu gan ddioddefwyr troseddau yn well. Yn y rhan fwyaf o achosion, arweiniodd hyn at fabwysiadu dull o gofnodi troseddau sy'n canolbwyntio mwy ar y dioddefwr, yn aml ar sail argraff gan y dioddefwr bod trosedd wedi digwydd. Yn aml, roedd hyn yn arwain at gofnodi mwy o droseddau o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. |
| Strategaeth Gyffuriau Genedlaethol | Yn 2008, cynhyrchodd y llywodraeth strategaeth newydd – *Drugs - Protecting Communities and Families.* Mae'r strategaeth yn cynnwys y weledigaeth ar gyfer cynnig ymateb cenedlaethol i gyffuriau. Y Swyddfa Gartref sy'n bennaf gyfrifol am y strategaeth gyffuriau a hefyd am gydgysylltu'r gwaith o ddarparu ei gwahanol elfennau, sy'n cael ei wneud gan nifer o wahanol adrannau gan gynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Iechyd a'r gyn Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd. |
| NI / Dangosyddion Cenedlaethol | Mae Dangosyddion Cenedlaethol yn deillio o Gytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus ac wedi eu cytuno ar draws y Llywodraeth drwy Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007. Mae'r canlyniadau a fesurir ganddynt, a'r dangosyddion eu hunain, yn rhoi datganiad o flaenoriaethau'r Llywodraeth sy'n cael eu darparu gan lywodraeth leol a'i phartneriaid. Dim ond dangosyddion ydynt a ddefnyddir fel sail i lywodraeth ganolog osod targedau ar gyfer llywodraeth leol. |
| Timau Plismona Cymdogaeth | A elwir hefyd yn Dimau Cymdogaeth Ddiogelach, ac sy'n cynnwys plismyn a phlismyn cymunedol ac a gefnogir yn aml gan asiantaethau eraill, fel arfer yr awdurdod lleol. Mae'r timau hyn yn cael cyswllt gyda'r gymuned leol i adnabod eu pryderon a'u blaenoriaethau, ac yn gweithio gyda nhw i ddatrys problemau a hefyd i wneud yr heddlu'n fwy gweladwy yn lleol. |
| Troseddau a Ddygwyd Gerbron y Llys | Mae dwyn troseddau gerbron y llys yn un o'r dulliau allweddol o fesur pa mor effeithiol yw'r system cyfiawnder troseddol. Dywedir fod trosedd wedi'i ddwyn gerbron y llys pan fydd trosedd a gofnodwyd yn arwain at gael troseddwr yn euog, at roi rhybudd, Hysbysiad Cosb am Anrhefn neu lle mae trosedd yn cael ei ystyried gan lys. |
| Onset | Dyfeisiwyd fframwaith atgyfeirio ac asesu Onset gan y Ganolfan Droseddeg ym Mhrifysgol Rhydychen ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae Onset yn hyrwyddo strategaeth atal y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid drwy helpu i adnabod ffactorau risg er mwyn eu lleihau a ffactorau gwarchodol er mwyn eu cynyddu. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i ddewis ymyriadau priodol i rai sydd wedi eu hadnabod i fod angen ymyrryd yn fuan yn eu hachos.<br>Ar ôl ei chasglu ynghyd, gellir defnyddio'r wybodaeth ar Onset i fonitro, a hefyd i dargedu is-grwpiau penodol lle bo hynny'n berthnasol, neu i ddarparu data ar gynnydd i grwpiau llywio. Mae'r rheolau ar sgorio atal yn gofyn bod pob rhaglen atal sydd wedi'i hariannu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn defnyddio Onset yn sail ar gyfer eu dulliau o atgyfeirio ac asesu.<br>Mae Onset yn broses mewn pedwar cam:<br>1 Caniatâd<br>2 Atgyfeirio a gwirio<br>3 Asesu<br>4 Cynllunio'r Gweithredu ac Adolygu |
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills neu'r Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (nid yng Nghymru, gweler Estyn am hynny) |

| | |
|---|---|
| PCT | Primary Care Trust neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol. |
| Cyn-CAF | 'Cais am Wasanaeth' yw hwn, i ofyn am un neu ddau wasanaeth ychwanegol, e.e. iechyd, gofal cymdeithasol neu addysgol, yn yr achosion hynny lle nad oes efallai angen Fframwaith Asesu Cyffredin. |
| Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 | O dan y Ddeddf hon, gall euogfarn troseddol gael ei 'chwblhau' ar ôl cyfnod o amser. Wrth wneud cais am waith, rhaid datgan euogfarnau blaenorol. Mae rhai swyddi, fel gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed, swyddi yn y gwasanaeth iechyd a swyddi 'person cymeradwy' eraill, wedi eu heithrio o'r Ddeddf. Bydd euogfarnau 'wedi eu cwblhau' a 'heb eu cwblhau' yn ymddangos ar Ddatgeliadau Cofnodion Troseddol yn ogystal â cheryddon a rhybuddion terfynol. |
| Ffactorau 'risg' a ffactorau 'gwarchodol' | Gellir diffinio 'ffactorau risg' fel rhai, yn ôl ymchwil, sy'n golygu bod unigolyn yn fwy tebygol o droseddu – er enghraifft, camddefnyddio sylweddau a methiant addysgol. Gellir diffinio ffactorau 'gwarchodol' fel rhai sy'n golygu bod unigolyn yn llai tebygol o droseddu. |
| 'Diogelu' | Gwaith sy'n cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant: sydd wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (yn sgîl Deddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau bod y gwaith aml-asiantaeth o ddiogelu a hybu lles plant yn yr ardal honno'n cael ei wneud yn effeithiol |
| *Y Saith Nod Craidd ar gyfer Plant* | Y dull a ddefnyddir yng Nghymru o amddiffyn, sicrhau lles a datblygiad plant ac sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenedlaethol Unedig ar hawliau'r plentyn |
| WYJI / Dangosydd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru | Nifer o ddangosyddion a gytunwyd arnynt gan Lywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt cyfiawnder ieuenctid |
| YCAP | Y Cynllun Gweithredu Troseddau Ieuenctid, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r cyn Adran Blant, Ysgolion a Theuluoedd yng Ngorffennaf 2008, fel dadansoddiad cynhwysfawr, trawslywodraethol o'r hyn oedd llywodraeth y DU am ei wneud i ddelio â throseddu gan bobl ifanc. Roedd yn gosod allan ddull 'triphlyg' o orfodaeth a chosbi lle mae ymddygiad yn annerbyniol, o gymorth pendant ac o herio lle bo'i fwyaf angen, o ymyrryd yn gynt ac yn well, yn enwedig drwy wneud iawn. |
| YIP | Sefydlwyd y Rhaglenni Cynnwys Ieuenctid yn 2000 fel rhaglenni wedi eu teilwrio'n arbennig i rai rhwng 8 a 17 oed sy'n cyflwyno risg uchel o gyflawni troseddau neu o ymddwyn yn gwrthgymdeithasol. Fel rheol mae Rhaglenni Cynnwys Ieuenctid yn gweithio naill ai gyda rhai rhwng 8-12 oed (i Rai Iau) neu rhwng 13-17 oed (i Rai Hŷn).<br>Mae'r YIPs yn targedu pobl ifanc mewn cymdogaeth sy'n cael eu hystyried i fod fwyaf tebygol o droseddu, ond maent hefyd ar gael i bobl ifanc eraill yn yr ardal leol. Mae'r rhaglen yn rhedeg mewn 114 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig / gyda'r troseddu mwyaf yng Nghymru a Lloegr. |
| YISP | Panel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid – mae Paneli Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid (YISPs) yn aml-asiantaethol ac yn cynnig pecyn cymorth i helpu pobl ifanc sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac sydd mewn perygl oherwydd eu hymddygiad eu hunain. Maent yn ceisio atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy gynnig gwasanaethau cymorth ac ymyriadau ategol eraill i blant risg uchel a'u teuluoedd. |
| Y Tîm Troseddwyr Ifanc | Tîm Troseddwyr Ifanc – timau aml-asiantaethol sy'n cydgysylltu gwasanaethau yn eu hardal awdurdod lleol. Maen nhw'n gyfrifol am oruchwylio troseddwyr ifanc ac yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n debygol o droseddu. |
| YRD | Modd Adfer Ieuenctid: Mae'r YRD wedi'i anelu at rai sy'n cyflawni troseddau llai, gyda'r nod o gynnig ateb terfynol mwy adferol i'r mater, sy'n dderbyniol i'r dioddefwr a hefyd, gobeithio, i'r troseddwr. |
| YJB | Youth Justice Board neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr. |

## Atodiad 2: Methodoleg yr Arolygiad

Roedd y tîm Arolygu’n cynnwys arolygwyr o Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, Arolygiaeth Prawf EM, y Comisiwn Ansawdd Gofal ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Yn ogystal ag ardal beilot i brofi’r fethodoleg, cafodd chwe ardal yng Nghymru a Lloegr eu hadnabod i dderbyn ymweliadau.

Roedd dewis yr ardaloedd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau ond roeddem am weld a oedd yr agenda atal yn gweithio’n wahanol gan ddibynnu ar natur yr ardal. Felly, penderfynodd y tîm ddewis bwrdeistref yn Llundain, dinas fawr, trefi trefol a sir a oedd yn wledig yn bennaf.


Cafodd uwch aelodau o staff ac ymarferwyr rheng flaen o nifer o gyrff, gan gynnwys y trydydd sector, eu cyfweld a bu’r tîm yn ymweld â nifer o raglenni ymyrryd lle cawsom gyfle i siarad gyda’r plant a’u rhieni / gofalwyr ynghylch eu profiadau.


Gofynnodd y tîm i bob un o’r saith ardal adnabod yr holl achosion a oedd wedi cychwyn rhwng chwech a naw mis cyn ein harolygiad a'r holl achosion a oedd wedi eu dirwyn i ben yn y tri mis cyn ein harolygiad. Yna, aethom ati i ddewis chwech achos cyfredol a thri achos wedi dod i ben ar gyfer sampl yr arolygiad. Addaswyd y sampl ymhellach i adlewyrchu, gymaint â phosibl, proffil y llwyth achosion o ran tarddiad ethnig a rhyw, fel a adlewyrchir yn y rhestr o achosion cyfredol ac wedi dod i ben ym mhob ardal.


I bwrpas yr arolygiad, edrychodd y tîm ar ffeiliau achos 75 o blant a oedd wedi cael eu hadnabod i fod yn fwy tebygol o droseddu. Bu’r tîm hefyd yn cyfweld, lle bynnag yr oedd hyn yn bosibl, gweithiwr allweddol y plentyn. Dyfeisiwyd offer asesu achosion i gasglu tystiolaeth ynghylch ansawdd yr asesiadau, yr ymyriadau ac effaith y gwaith hwn.


*Dalier sylw: Nid yw’r enwau a ddefnyddiwyd yn yr enghreifftiau achos yn enwau go iawn y plant hynny.*

*Nodweddion y sampl:*



## Atodiad 3: Rôl yr Arolygiaethau a'r Cod Ymarfer

### Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaet h Cwnstabliaeth EM ar gael ar ein gwefan yn:

**www.hmic.gov.uk**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Constabulary*
*HM Inspectorate of Constabulary,*
*6th Floor, Globe House, 89, Eccleston Square, London SW1V 1PN*

### Arolygiaeth Prawf EM

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf EM a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn:

**www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-probation**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*Prif Arolygydd Prawf EM*

*HMI Probation*
*2nd Floor, Ashley House, 2 Monck Street London, SW1P 2BQ*

### Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Mae gwybodaeth am Rôl y Comisiwn Ansawdd Gofal ar gael ar ein gwefan yn:

**www.cqc.org.uk**

Corff cyhoeddus yw'r comisiwn. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*Y Prif Weithredwr*

*Care Quality Commission*
*Finsbury Tower, 103-105 Bunhill Row, London EC1Y 8TG*

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gael ar ein gwefan yn:

**www.hiw.org.uk**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sydd am wneud sylwadau ar unrhyw arolygiad, adroddiad neu fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gwaith ysgrifennu at:

*Y Prif Weithredwr*

*Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Bevan House, Parc Busnes Caerffili, Van Road, Caerffili, CF83 3ED*